

CLONC

www.clonc.co.uk - yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 307 - 60c
Hydref 2012

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Y Dderi
yn casglu
sbwriel**



Tudalen 12

**Dathlu
50 mlynedd
o wasanaeth**



Tudalen 16

**Codi
arian i'r
Ambiwylans**



Tudalen 24

Diolch am wasanaeth hir i dref Llambed



Mae dwy o Gynghorwyr Tref Llambed newydd ymddeol - Margaret Davies Evans wedi 15 mlynedd o wasanaeth a dau gyfnod yn Faer, a Cecilia Barton wedi 19 mlynedd fel Cynghorydd Rhanbarth, a 16 mlynedd yn Gyngorydd Tref, a bu hefyd yn Faer. Cynhaliwyd cinio ffarwel iddynt yn y Pantri er mwyn cydnabod eu gwasanaeth. Cyflwynwyd blodau, tarian a mwg i'r ddwy gan Faer a Maeres Llambed, y Cynghorydd Kistiah a Carol Ramaya. Gyda nhw y mae Eleri Thomas (Clerc), Chris Thomas, Elsie Dafis, Derek Wilson, Ifor Williams, Greg Evans, John Davies, Selwyn Walters, Hag Harris a David Smith.



Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion a gynhaliwyd yn Llanybydder - Tim Barnu Stoc (Iau) Llanwenog yn ennill y Cwpan. Steffan Jenkins; Guto Jones; Sioned Fflur a Daniel Morgans.



Rhys Davies, C.Ff.I. Llanwenog yn ennill y marciau uchaf yng nghystadlaeth Barnu Stoc dan 14 oed yn Niwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion.

Dai yn bencampwr Rhychio



Enillydd y wobwr gyntaf am wneud rhych yng nghystadleuaeth rhychio ym Mhreimin Aredig Cymru yn Morfa Mawr, Llanon oedd Dai Williams, Dolaugwyrdion Isaf, Llambled.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Dai ac Erin Green, Ty Capel Caeronnen, ar eu priodas yn ddiweddar yn Sulgrave, Banbury.

Penwythnos Merched y Wawr



Aelodau cangen Llambled yn cymryd rhan yn oedfa Merched y Wawr.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Hydref Delyth Morgans Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd, Llanbedr 422992
Tachwedd Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambod

Gohebwyd Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambod Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Beth yw beth?

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambod 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llanwen, Llambod 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhyfyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilym Clonc ar: Gwelyfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncy
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Clonc yn archif.

Rwyf wedi derbyn aml i alwad yn ddiweddar am eitemau sydd wedi ymddangos mewn rhifynnau blaenorol o'r papur bro. Mae hyn yn gwneud cyfrannu i'r papur yn werth yr holl drafferth. Caf fy atgoffa weithiau am rhyw sylw roeddwn wedi'i wneud yn Siprys dwy neu dair blynedd yn ôl ond aeth yn angof. Roeddwn wedi dweud rhywbryd ei bod hi'n drueni nad oedd y ffermwyr yn torri'r tyfiant o amgylch y pyst trydan a ffôn wrth dorri cloddiau. Un person yn dweud wrthyf ei fod yn mynd adre i orffen torri'r cloddiau rhag ofn y byddai 'Cloncy' yn tynnu sylw at hyn. Da gwybod fy mod yn cael ychydig o ddylanwad!

Blodau Hyfryd.

Rhaid llongyfarch tre, busnesau a thai Llambod ar yr arddangosfa wych o flodau. Mae pawb wedi ymateb yn arbennig o dda. Da iawn yn wir. Trueni fod rhyw ffyliaid yn meddwl fod creu ewyn trwy ychwanegu powdwr i'r ffowntan ar y sgwâr yn beth clyfar...

Cofio!

Mae ambell i ddigwyddiad o'm plentyndod yn dal i ddod i'm cof. Un o bregethwyr fyddai'n dod i Gapel Llwynygroes yn aml ac yn hoff iawn o ddefnyddio'r un dywediad Saesneg yn rheolaidd, 'Your sins will find you out'. Mae'n rhyfedd pa mor wir yw hyn wrth feddwl am yr holl ddatganiadau ddaeth i'r golwg yn ddiweddar. Y ddamwain erchyll ar faes pêl-droed Hillsborough ddigwyddodd flynyddoedd yn ôl; yr holl gawdel parthed llofruddiaeth

Lynette White, dim ond i enwi dau. Rhaid i ni gofio hefyd ein bod ni, pob un ohonom, yn bell o fod yn hollol ddieuog.

Cyfarfodydd Diolchgarwch.

Mae'r tymor wedi dod eleni eto ac fe gawn gynulleidfaoedd ddigon teilwng. Yr hyn sy'n ofid yw'r nifer o weinidogion sydd ar gael. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu, ac fe fydd lleygwyr yn gorfod cynorthwyo mewn llawer o orchwylion. Rwyf wedi bod mewn dau angladd lle'r oedd milfeddyg yn cymryd un gwasanaeth ac un o'r blaenoriaid oedd yn gwasanaethu yn y llall. Fe ddaw hyn yn fwy derbyniol yn y dyfodol, yn enwedig gyda'r rhai sydd byth yn mynychu lle o addoliad.

Eglurhad.

Ydych chi'n clywed geiriau sy'n gyfarwydd i'r glust ond heb yr un syniad beth mae'n olygu. Un o rheini oedd y gair 'Tapas'. Rown i'n gwybod mae tameidiau o fwyd oedd Tapas ond dim syniad am y tarddiad, a dyna dda oedd cael esboniad llawn yng ngholofn Gareth 'Yn y Gegin'. Does yr un ohonom yn rhy hen i ddysgu!

Gorddefnydd o dalfyriadau!

Wedi cyfnod hir fel llywodraethwr ysgol rwy'n gwneud apêl i'r rhai sy'n ysgrifennu neu'n traddodi adroddiadau - cofiwch nad yw'r mwyafriaf o rieni a llywodraethwyr wedi'u trwytho i ddeall y talfyriadau a ddefnyddiwyd. Gofalwch fod defnydd llawn o'r talfyriad o leiaf unwaith yn eich dogfen.

Hwyl! CLONCYN

Diolch am deipio

Hoffai swyddogion Clonc ddiolch o galon i Joy a Cari Lake am eu gwasanaeth fel teipyddion Clonc. Bu Joy yn teipio i'r papur ers blynyddoedd a bu'n bleser cael Cari ei merch yn rhan o'r tîm hefyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Anogir bawb o hyn ymlaen i deipio newyddion eu hunain a'u danfon ar e-bost at y golygydd os yw'n bosib. Wedi dweud hynny, gellir gofyn i Nia Davies, Trysorydd Clonc, i deipio hefyd. Gellir gadael newyddion yn siop J H Williams a'i feibion, Crown Stores, Llanbedr ar gyfer Nia.

Gohebiaeth Clonc



Y Mans,
Stryd Newydd,
Llanbedr Pont Steffan

Apêl Plant mewn Angen

Eleni bydd diwrnod Apêl Plant mewn Angen ar ddydd Gwener Tachwedd 16eg. Bydd y ganolfan dderbyn ar y dydd yng Nghapel Sant Tomos sydd ar Faes Parcio Cwmins Llanbedr. Eleni, ar ben 30 mlynedd, rydym yn anelu at gyrraedd y Miliwn. Hyd yn hyn rydym £16000 yn brin o'r targed.

Beth am ymuno â ni i gasglu cymaint ag y gallwch - yn ysgolion, cymdeithasau, swyddfeydd, siopau, capeli, eglwysi ac unigolion? Cysylltwch â ni ar y ffôn 01570 422587 neu danfonwch eich cyfraniad i'r cyfeiriad uchod neu alw yn y ganolfan ar y dydd.

Eleni fe fydd Beti a finau yn gorffen â'r gwaith fel cydlynwyr yr apêl i Lanbedr Pont Steffan a'r bröydd. Tybed a oes yna rywrai â diddordeb mewn cymryd at y gwaith? Gwaith gwirfoddol a rydd bleser mawr o'i wneud. Cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb.

Yn gywir iawn,
Beti a Goronwy



Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



HYDREF

- 4 Cwrdd Diolchgarwch Seion Cwrtnewydd am 7.00y.h.
- 6 Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p. dan nawdd Urdd y Benywod, Capel-y-Bryn.
- 7 Ras Hwyl Ysgol Llanwenog. Ras gyntaf am 11.00y.b.
- 7 Cyrddau'r Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yng Nghapel Caeronnen, Cellan am 1.30y.p.
- 9 Aelwyd yr Urdd Llambled.
- 9 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7.00y.h. Gwasanaethir gan y Parchedig Goronwy Wynne, Llanymddyfri. Croeso cynnes i bawb.
- 9 Cwrdd Diolchgarwch Capel Brynteg am 7.00y.h. pan ddisgwylir y Parchedig Towyn Jones i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb.
- 10 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7y. Pregethwr Gwadd: Parchedig Beti Wyn James, Caerfyrddin.
- 10 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca am 7.00y.h. Parchedig Eirian Wyn Lewis, Maenclochog a Mynachlogddu. Croeso cynnes i bawb.
- 10 Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7.00y.h. Pregethir gan y Parchedig Aled Jones, Saron, Llandysul. Croeso cynnes i bawb.
- 11 Cwrdd Diolchgarwch Caersalem Parcyrrhos am 7.00y.h.
- 12 Eisteddfod Ddwl gyda Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Goffa Felinfach.
- 12 Ffilm "Moonrise Kingdom" (12) Bruce Willis yn Neuadd Mileniwm Cellan. Drysau'n agor am 7.15yh.
- 12 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr yn Neuadd San Pedr Caerfyrddin.
- 13 Cyngerdd Bois y Castell a Joy Cornock yn Neuadd Bro Pedr (Ffynnonbedr Gynt) am 7.30y.h.
- 16 Cymdeithas Cerdd Llambled yn cyflwyno Catrin Finch, Brenhines y Delyn, yn Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am 7.30yh.
- 16 Cymdeithas Hanes Llambled yn cyflwyno Gwyn Griffiths: Henry Richard o Dregaron Yr Apostol Heddwch yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am 7.30yh.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch Aberduar, Llanybydder am 2.00y.p. a 7.00y.h.
- 18 Lansio'r Llyfr "Dathlu Llanbedr Pont Steffan drwy Emyr" gan Gerald Morgan yn Noddfa am 7.30y.h.
- 19 a 20 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr yn Neuadd San Pedr Caerfyrddin.
- 21 Cwrdd Diolchgarwch yr Ifanc yn Noddfa am 5.00y.h.
- 21 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Groes, Llanwnnen am 3.00y.p. gyda Delyth Morgans Phillips, Llanbedr Pont Steffan. Croeso cynnes i bawb.
- 21 Cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân yn Eglwys Llanwenog am 7.00y.h.
- 23 Aelwyd yr Urdd Llambled.
- 23 Cyfarfod Cynghair Ward Llanwenog a'r Cyffiniau am 7.30y.h. yng Nghewn Hafod, Gorsgoch.
- 26 Ffilm "Dark Shadows" (12) Johnny Depp yn Neuadd Mileniwm Cellan. Drysau'n agor am 7.15yh.
- 26 Bwffe Caws a Gwin ac Ocsiwn. Adloniant gan 'Free Beer' yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder am 7.00y.h. Tocynnau £12.50.
- 27 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach 01558 650292.
- 28 Cwrdd Diolchgarwch a Sul Pawb Ynghyd yng Nghapel Caeronnen, Cellan am 3.00y.p.
- 31 Bingo yn Festri Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.

TACHWEDD

- 1 a 3 Eisteddfod Sir C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.
- 2 Noson gan Blaid Cymru yng nghwmni Tecwyn Ifan yn Clwb Rygbi Llambled am 7.30y.h. Tocynnau £8 oddi wrth Ann Morgan 422413.
- 2 Stomp y Beirdd yng ngofal Tudur Dylan Jones yn Neuadd Pumsaint. Tocynnau £5 yn cynnwys lluniaeth ysgafn.
- 2 Cinio Blynyddol Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant am 7.30yh. Tocynnau yn £20 ar werth gan Iwan 422370 neu Gareth 423396.
- 4 Cymdeithas Cerdd Llambled yn cyflwyno Dominant Quartet am 7.30yp yn Hen Neuadd y Coleg.
- 6 Aelwyd yr Urdd Llambled.
- 9 Swper a Chabaret yng nghwmni'r digrifwr Tudur Owen yn Neuadd Pumsaint. Tocynnau £15.
- 9 Ffilm "Woman in a Dressing Gown" (12) Anthony Quinn yn Neuadd Mileniwm Cellan. Drysau'n agor am 7.15yh.

Cellan

Capel yr Erw

Cynhelir cwrdd diolchgarwch Capel yr Erw ar nos Fawrth Hydref y 9fed am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch Goronwy Wynne, Llanymddyfri. Croeso cynnes i bawb.

Capel Caeronnen

Llongyfarchiadau i Dai ac Erin Green, Ty Capel Caeronnen, ar eu priodas yn ddiweddar yn Sulgrave, Banbury.

Dyddiadau Cyrddau'r Capel

Hydref 7fed - Cyrddau'r Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yn Nghapel Caeronnen am 1.30 o'r gloch. Bydd Gwynn Pritchard, Caerdydd yn ein hanerch. Bydd Pwyllgor y Gymdeithas a the i ddilyn y gwasanaeth.

Hydref 28ain - Cwrdd Diolchgarwch a Sul Pawb ynghyd, y gwasanaeth yng ngofal y Parch Cen Llwyd, am 3.00y.p.

Tachwedd 25ain - Cwrdd am 3.00y.p.

Cwmsychpant

Braint a llongyfarchiadau

Ym Mhwylgor Blynyddol Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion, etholwyd Einir Ryder, Tyngrug Ganol ac aelod brwdfrydig o G.Ff.I. Pontsian yn Is Gadeirydd y mudiad yng Ngheredigion. Llongyfarchiadau fil i ti Einir ac edrychwn ymlaen at glywed dy hanes dros y ddwy flynedd nesaf.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm ar nos Iau, Hydref 18fed am 7.30 o'r gloch. Y pregethwr fydd y Parch Eirian Wyn Lewis, Mynachlogddu.

Noson o Fingo

Croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni am noson o Fingo yn Festri Capel y Cwm nos Fercher, Hydref 31ain am 7.30 o'r gloch gyda'r elw yn mynd i'r Capel.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow, Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambled, Heol Tregaron, Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwyn, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allwedd i a pheiriauau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175

O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Dros yr haf, cychwynnodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar eu cynlluniau i ddiwygio gwasanaethau iechyd lleol. Yn y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd ganddynt yn ddiweddar yn Aberystwyth, pwysleisiwyd y bydd yr adran Damweiniau ac Argyfwng, yr adran Orthopaedig a'r adran Famolaeth yn parhau ym Mronglais. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan y gynulleidfa yn ystod y cyfarfod ynghylch y gostyngiad yn y nifer o welyau ym Mronglais a'r gwahanol wardiau sydd yn cael eu cau oherwydd y diffyg staff yno. Rwy'n gobeithio y bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar y materion pwysig yma ac yn talu sylw i'r farn gyhoeddus.

Er nad yw cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn effeithio cymaint ag yr oeddem wedi'i ofni ar Fronglais, rhaid i ni barhau i ymgyrchu dros barhad yr holl wasanaethau iechyd craidd sydd eu hangen arnom yn yr ardal.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio darparu mwy o driniaethau yn y gymuned a sefydlu Canolfannau Adnoddau Cymunedol yn Aberteifi ac Aberaeron, a chydweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion ar brosiect Cylch Caron. Mae angen i ni gael mwy o fanylion ynghylch goblygiadau'r newidiadau yma i'n gwasanaethau cymunedol, a byddaf yn cadw llygad ar y sefyllfa wrth i'r cynlluniau yma ddatblygu.

Gwnes fynychu digwyddiadau amrywiol ar hyd a lled y sir yn ystod yr haf. Roeddwn yn falch i fod yn bresennol yn agoriad swyddogol Llyfrgell newydd y Dref yn Aberystwyth, ac roedd hi'n dda gweld Currys PC World yn ailagor yn swyddogol wedi'r difrod adeg llifogydd mis Mehefin. Roedd hi hefyd yn fraint i agor Cae Chwarae Angharad ym Mhontrhydfendigaid, sydd wedi cael ei enwi ar ôl merch leol a laddwyd mewn damwain car ychydig flynyddoedd yn ôl.

Yng nghanol mis Medi daeth y Gweinidog Busnes, Edwina Hart AC i fynychu dau gyfarfod gyda fi, y cyntaf gyda rhai o fusnesau tref Aberteifi a'r llall gyda pherchnogion busnesau twristaidd o Geredigion. Yn ystod y cyfarfod, fe glywodd y Gweinidog am yr anawsterau y maent yn eu hwynebu yn yr hinsawdd economaidd rydym ynddi, ac rwy'n gobeithio bod y bobl busnes oedd yn bresennol yn cytuno i'r cyfarfod fod yn un buddiol.



EIRA DDOE
cofio tywydd eithafol
THE SNOWS OF YESTERYEAR
narrating extreme weather

Fforwm Tywydd Eithafol newydd i Gymru

- Darganfod a Rhannu Atgofion o Dywydd Eithafol
- Gweld dros 3,500 o dudalennau wedi'u digido o archifau llyfrgelloedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Mwynhau Perfformiad diweddaraf Eddie Ladd a dilyn y broses o'i greu

A oes gennych chi, eich ffrindiau neu eich teulu atgofion o...

- gyfnod o dywydd eithafol yng Nghymru?
- aef caled neu fwy?
- haf cymnes, gwlyb neu boeth?
- gynlloaf siomedig neu llwyrhion?
- fellt a tharannau byrghofiadwy?
- lifogydd, sychder, storm neu gorwyn?
- Eisteddfod neu Sioe Frenhinol gwlyb neu grasboeth?

Os mai OES yw eich ateb, cyfrannwch lwy i <http://eira.llgc.org.uk> neu cysylltwch â Cerys Jones, CAWCS, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH, 01970 631028, cerys.jones@cymru.ac.uk

<http://eira.llgc.org.uk>



Arts & Humanities Research Council

EGC NIW

Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i
chi gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Gorsgoch

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Wyn a Gwyneth Morgans, Pensarnau a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar ddechrau mis Hydref.

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE

01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosfwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Llun i Ddydd Sadwrn

10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Cymdeithas Alzheimer's
Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 296645

Gwasanaethau Coed Teifi

Tree Services

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau / Plygu
cloddiau

Wedi yswirio'n llawn

Dyfynbris am ddim

Coed tân ar werth

Lyn Davies

01239 851001

07796 682448

SEFYDLIAD

PRYDEINIG Y GALON

ARDAL LLANYBYDDER /

LLANBEDR PONT STEFFAN

NOSON BINGO

Yng Nghlwb Rygbi Llanybydder

16eg Hydref 2012

8 o'r gloch y.h.

Elw tuag at BHF

Nyrs Calon Ceredigion

Yn Eisiau

Clerc

(rhan amser)
i Gyngor Bro
Pencarreg,
Cwmann.

Cysyllter ag Eric Williams am fanylion.
01570422425
eric.fedw@btinternet.com

Pencarreg

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Delyth Jacob, Frondeg, am wellhad llwyr a buan yn dilyn ei arhosiad yn Ysbyty Glangwili. Gwellhad buan i bob claf arall yn yr ardal, gobeithio y cewch adferiad iechyd yn glou.

Haf Pencarreg

Mae nifer o bobl a phlant y pentref wedi bod yn cwyno nad oedd unman diogel i'r plant gael chwarae trwy gydol yr Haf.

Mae'r hewl yn beryglus tu hwnt heb balmant yn agos i'r lle, mae'n berygl bywyd i unrhyw un geisio cerdded o un pen y pentref i'r llall. Yn ddyddiol bydd loriau anferth yn llenwi'r ffordd ac yn teithio hyd at 40 m.y.a. Mae angen gostwng y cyflymdra hyd at 20 m.y.a yn enwedig o gwmpas tro Plas yng nghanol y pentref. Mae damweiniau angheuol wedi digwydd yn y gorffennol ac nid ydym am weld un arall, gan gofio bod rhif y plant sy'n byw yn y pentref wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar.

Diolch i Kevin Jones, Maescanol am ganiatáu i blant chwarae ac am i oedolion gael cerdded eu cŵn ar dir wrth ymyl y llyn; heb garedigrwydd Kevin gallai'r haf wedi bod yn ddiflas iawn. Ond a ydy hyn yn deg ar Kevin?

Mae nifer wedi bod yn gofyn oes modd cael darn o dir ynghanol y pentref i'r plant gael chwarae ac adeilad i'r bobl gwrdd. Oes rhywun wedi dileu pentref Pencarreg oddi ar pob map, ydyn ni ar goll yn awr yn llwch yr amser gynt? Heb ysgol, heb siop, heb dafarn, heb fws X40. Clywch, clywch chwi gynghorwyr – ry'n ni yma o hyd!!

Aduniad Ysgol Dolgwm, Pencarreg

Mae nifer o gyn-ddisgyblion wedi sôn am yr angen i drefnu aduniad. Wel dewch i ni fynd ati 'te! Gorau i gyd po gyntaf waeth mae'r cloc yn tician!

Cysylltwch â mi os gwelwch yn dda, mae angen cymorth, gorau i gyd po fwyaf. Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf, Pencarreg - 01570 422270



Enillwyr adran y plant yn Ffair Ram am y nifer uchaf o bwyntiau oedd (o'r chwith) Gwennan Rowcliffe, Morgan Lewis, Gwenllian Llwyd a Llion Herbert.



Enillydd yr hwrdd gorau a phencampwr adran y defaid yn Ffair Ram oedd oen hwrdd Texel o eiddo Carwyn Lewis, Hathren Texels Cwmann, yn cael ei ddangos gan Gwyn Lewis.

Ffair Ram

Cynhaliwyd y Ffair ar 8fed Medi. Roedd hi'n ddiwrnod braf a chafwyd gweithgareddau llwyddiannus o dan lywyddiaeth Mr a Mrs Gary Jones, Bryndolau. Bu cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth ac arddangosfa arbennig o hen beiriannau. Codwyd swm sylweddol at Ymchwil Parkinsons.

Dyma enillwyr y gwobrau: **Adran Fferm** – Brodyr Russell, **Adran CFfl** – Iestyn Russell, **Llysiau a Ffrwythau** – Jenkin Mason, **Blodau** – Gwyn Williams, **Coginio** – Pat Jones, **Cyffeithiau / Gwinoedd** – Helen Roberts, **Ysgol Feithrin** – Sioned Kersey, **Dosbarth Derbyn** – Gary Jones, Blwyddyn 1 a 2 – Gwenllian Llwyd, Blwyddyn 3 a 4 – Gwennan Rowcliffe, Blwyddyn 5 a 6 – Llion Herbert, Ysgol Uwchradd – Morgan Lewis, Arlunwaith – Dilys Godfrey, **Ffotos** – Meinir Douglas, **Crefftau Cefn Gwlad** – Gwyn Williams, **Gwaith Llaw** – Dilys Godfrey, **Adran y Defaid** – Eiddig Jones, **Cwpan Sialens Felindre Uchaf** – Jenkin Mason, **Cwpan Sialens Felindre Isaf** – Tomos Jones, **Cwpan Sialens Wyn a Mary** – Carwyn Lewis, **Cwpan Sialens Eric Harries** – Dewi Evans, **Cwpan Sialens Teulu Hendai** – Dewi Evans, **Cwpan Sialens Dalgety** – Carwyn Lewis.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb fu'n helpu ac am bob cefnogaeth.

Ymddiheuriadau na chyhoeddwyd y canlynol yn rhifyn mis Medi.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rhian, Jeff a'r teulu Llysycod ar farwolaeth mam a mam-gu, sef Hazel Davies, Frondolau. Eirlys Jones, Balford ar farwolaeth ei chwaer. Iona Davies, Murmur Teifi ar farwolaeth ei mam ac hefyd Terry Davies ar golli ei chwaer. Jean Jenkins a'r teulu Tandderwen ar farwolaeth ei mam a mam-gu, Mrs. Sophie Davies, 37 Heol Hathren. Sheila Lewis, Brynawel a gollodd ei mam-gu Amillia Lloyd yn Awstralia yn 104 mlwydd oed. Myfanwy, Ty Capel Caersalem a pherthnasau'r diweddar Harold Williams, Tyhowell.

Ysbyty

Gwellhad buan i'r canlynol: Ann Lewis, Hillside; Lena Williams, 39 Heol Hathren; Maureen Evans, Brynmaen yn dilyn anffawd; Mrs Davies, 19 Heol Hathren, a Gareth Jones, Trosnant, y tri ohonynt wedi cael llawdriniaeth.

Babanod Newydd

Llongyfarchiadau i Ann a Ronnie Roberts, Brynview ar enedigaeth ŵyr bach, Cai, mab i Helen ac Euros. Hefyd llongyfarchiadau i Glyndwr a Margaret Jones, Y Glyn, ar enedigaeth eu hwyres fach yn yr Alban.

Priodas Dda

Pob dymuniad da i Anwen, Maesteg a Huw a briododd ddiwedd mis Gorffennaf. Maent bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Llwyddiant

Unwaith yn rhagor daeth llwyddiant i gôr cydadrodd criw Sarn Helen yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac eto yn Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan. Daeth llwyddiant hefyd i Kees Huysmans, aelod o Gôr Meibion Cwmann, ar ennill dau wobwr gyntaf.

Llongyfarchiadau i Naiomi, Hafodlon, ar lwyddo yn ei arholiad piano Gradd 2 gydag anrhydedd o dan nawdd Coleg Cerdd Brenhinol Llundain.

Diolch

Dymuna Lena Williams, 39 Heol Hathren ddiolch i bawb a ymwelodd â hi ac hefyd am y cardiau, blodau a'r rhoddion a dderbyniodd yn dilyn cyfnod yn ysbyty Treforys ac ar ôl dod adref.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob lwc i'r dyfodol i Morgan Jones, Glan Hathren a Katie Pitcher ar eu dyweddiad.

Enillwyr Clwb 225 mis Gorffennaf

1. 188, Mr A. Davies, Tycapel, Parcyrrhos, 2. 199, Mr L. King, Tafarn Jem, Cwmann, 3. 74, Mr A. Riley, King's Park, Cwmann, 4. 80, Christina a Shaun Davies, Pleasant View, Llanbed, 5. 156, Alan a Sulwen Morgan, Llwynfedw, Llanbed, 6. 92, Adrian Davies, Hafod Lon, Cae Ram, Cwmann, 7. 200, Eleri Thomas, 2 Treherbert, Cwmann, 8. 53, Tegwen Morris, c/o Brynhathren, Cwmann, 9. 141, Sid Mason, Bryndolau, Pumsaint, 10. 28, Mr G. Williams, Wyngarth, Cwmann.

Clwb 225 Mis Awst

1. 134, Cassie Gregson, c/o Werna, Cwmann, 2. 146, Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 3. 133, Kevin Doyle, Caradog View, Cwmann, 4. 148, Mrs J. Morgan, Llys Penparc, Cae Ram, 5. 38, Mrs Carol Doughty, Caris, Cwmann, 6. 108, Ioan Williams, Dolgwm Isaf, Cwmann, 7. 231, Mr Roddy Rees, Bryn Road, Llanbed, 8. 111, Mr Dafydd Jones, Bara Gwalia, Llanybydder, 9. 11, Mrs Mair Powell, Penbryn, Cwmann, 10. 31, Mr Ronnie Robert, Brynview, Parcyrrhos.

Enillwyr Clwb 125 Gorffennaf

1. Mr Huw Davies, Newlands, Cwmann, 95, 2. Mr S. Palmer, Gables, Cae Ram, Cwmann, 124, 3. Mr A. Jones, Hathren, Bridge St., Llanbed, 144, 4. Mrs I. Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 34, 5. Mr B. Lloyd, Blaenrhysglog, Ffarmers, 10, 6. Mr A. Jones, Glan Rhyd, Parc y Rhos, 80, 7. Ms S. James, 15 Bro Llan, Llanwnnen, 141, 8. Gavin a Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni, 73, 9. Mrs. Thomas, Tegfan, Cwmann, 114.

Clwb 125 Awst

1. Mrs Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 30, 2. Mrs Mattie Williams, Ddeunant Hall, Cwmann, 70, 3. Andrea Lewis, 39 Heol Hathren, Cwmann, 148, 4. Mrs Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 81, 5. Mrs K. Williams, Sarn Helen, Cwmann, 18, 6. Mr & Mrs. Hughes, Ramleigh, Cwmann, 50, 7. Mr Dafydd Davies, Ger-y-Nant, Drefach, 24, 8. Darren James, 15 Bro-Llan, Llanwnnen, 41, 9. Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 119.



Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Mae'n Côr yn dal yn brysur ac yn parhau i chwarae'i ran yn y gymuned. Ar ddydd Sadwrn, 15fed Medi bu'r Côr yn canu yng Nghartref Alltymynydd. Roedd yr achlysur hwn, sef diwrnod agored y Cartref, wedi'i ohirio o leiaf ddwywaith oherwydd y tywydd ond o'r diwedd cafwyd diwrnod braf er braidd yn oer. Pwrpas yr achlysur oedd codi arian at y Cartref ac agor yn swyddogol yr Ardd Goffa yno. Bu Mrs Anne Mary Davies, Glanhoca (gynt), Llanddewi Brefi yn y Cartref am bum mlynedd ac roedd ei theulu yn awyddus i roi rhywbeth defnyddiol i'r Cartref. Y penderfyniad oedd adeiladu ffynhonnell ddŵr ar ganol yr ardd i greu awyrgylch o dawelwch, fel yr hyn a wna dŵr rhedegog. Aeth y garddwr, Robert Southhall a'i staff, ati i greu cofeb ac maent wedi llwyddo i wneud campwaith, a hynny er cof am Mrs Davies, mam Wynne y Ram (gynt) ac Alwyn y bysiau. Agorwyd gan Ddirprwy Faer Llanbed sef Mrs Dorothy Williams. Wrth ddadorchuddio'r plât i gofio am Mrs Davies, diolchodd Wynne, Mary ac Alwyn yn gynnes iawn i staff y Cartref am eu gofal o'u mam ac i Robert Southhall a'i gynorthwyr am eu gwaith clodwiw. Yn dilyn y dadorchuddio bu'r Côr yn canu wrth y gofeb ac yna buont yn diddanu'r rhai oedd yn bresennol. Mae'r Côr yn ymweld â chartrefi preswyl yr ardal bob Nadolig ac roedd ei sefydlydd, y diweddar Olifer Williams, yn pwysleisio pwysigrwydd yr ymweliadau hyn, a mawr yw gwerthfawrogiad y trigolion bob amser.

Bydd y Côr yn dathlu ei hanner canmlwyddiant yn 2014 a'r bwriad yw cyhoeddi llyfr cynhwysfawr o hanes y Côr ers ei ddechreuad. Mae'r Côr yn barod yn paratoi ar gyfer y Nadolig a'r achlysur pwysig nesaf yw cyngerdd yn Llanwrtyd ar y 27ain o Hydref. Mae'r Côr yn dal i ffynnu gyda dros deugain o aelodau gweithgar a brwd. Er hyn, mae yna groeso mawr i unrhyw un sydd â diddordeb ac yn medru canu i ymuno â ni. Dyma i chi wahoddiad i Festri Brondeifi ar nos Fercher am 8 o'r gloch; dewch i ymuno yn yr hwyl!

Eglwys Sant Iago

Oherwydd y tywydd, bu'n rhaid newid trefniadau ychydig eleni a chynnal ein 'Te Mefus' yn neuadd Sant Iago ar ddydd Sadwrn, 14eg Gorffennaf. Croesawodd ein ficer bawb i'r 'Te Mefus' a diolchodd iddynt am eu presenoldeb, yna aeth ymlaen i gyflwyno llywydd y dydd, sef Mrs Yvonne Davies o Bencader. Mae Yvonne yn chwaer i Mrs Lena Williams, sydd yn aelod ffyddlon o eglwys Sant Iago. Cawsom neges pwrpasol ganddi wrth iddi ddweud mae hi oedd y cyntaf i gael priodi yn eglwys Sant Iago. Roedd am briodi yn Sant Iago ond ar y pryd nid oedd trwydded priodi gan yr eglwys fach, dim ond y fam eglwys, sef eglwys y plwyf ym Mhencarreg. Aeth y ficer ati fodd bynnag i gael trwydded, ac yn wir cafwyd trwydded mewn amser i Yvonne a Wynford gael priodi yn ôl eu dymuniad. Roedd pawb wedi mwynhau'i neges a chlywed yr hanes. Cyflwynwyd blodau iddi gan Mrs Fenella Strange. Hyfryd roedd gweld amrywiaeth o nwyddau yn llenwi'r byrddau a bu prynu brwd cyn i bawb eistedd a mwynhau'r 'Te Mefus' a chwpainaid o de a chacennau Cymreig. Diolchodd y ficer i Mrs Yvonne Davies am ei neges ddiddorol a'i rhodd hael at gronfa'r eglwys, yna aeth ymlaen i ddiolch i bawb am y cydweithio gyda'r paratoi, ac i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y diwrnod. Gwnaed elw sylweddol at gronfa'r eglwys er mwyn gwneud gwelliannau i'r adeilad.

Diolch

Dymuna Maureen a'r teulu Brynmaen, Cwmann ddiolch am haelioni lluo o ffrindiau a pherthnasau a gyfrannodd y swm o £1775 o bunnoedd at uned chemotherapy Ysbyty Glangwili, er cof am Charles. Diolch yn fawr.

Dymuna Noleen a David John Wernfraith, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd atynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar.



Côr Corisma

Ar ddechrau blwyddyn arall yng nghalendr prysur Côr Corisma, bu'r Côr yn canu mewn cyngerdd ym Mhontarfynach. Arweinydd y cyngerdd oedd Ifan Jones Evans a'n cyd-artist oedd y delynores ifanc o Ledrod, Nest Jenkins. Roedd hi newydd ddychwelyd o gystadleuaeth ryngwladol ym Mangkok lle gipiodd y wobr gyntaf ac yna'r gilwobr am y telynor gorau dan ddeunaw oed. Tipyn o gamp! Cafwyd unawd gan ein harweinyddes medrus, Carys Lewis a swynodd y gynulleidfa gyda'i llais arbennig. Ein dwy gyfeilyddes ar gyfer y cyngerdd oedd Lois Williams ac Alwena Evans. Mwynhaodd aelodau'r côr de blasus i ddiweddu prynhawn hyfryd iawn.

Os oes unrhyw un o ddarlennwyr benywaidd Clonc awydd ymuno â'r Côr, mae croeso i chi ddod i Ganolfan Cwm-ann bob yn ail nos Lun. Byddwn yn falch o'ch gweld chi.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Noleen a David John Davies, Wernfraith ar farwolaeth annisgwyl ei mam, ac hefyd ag Erina Jones a'r teulu Cae Coedmor ar farwolaeth ei thad, Mr. Glyn Jones (Caeclash gynt).

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau mawr i David a Eileen Morgan, Haulfryn ar ddathlu pen-blwydd Priodas Ddiemwnt. Iechyd da am flynyddoedd eto.

Baban Newydd

Llongyfarchiadau i Sian a Gethin, Rhandir, Cae Ram ar enedigaeth mab bach, Ifan. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Enillwyr Clwb 225 Mis Medi

1. 33, Mr. Edwin Harries, 8 Nantyglyn, Cwmann, 2. 27, Mr. Edwin Harries, 8 Nantyglyn, Cwmann, 3. 41, Mr. Cerdin Price, Langwm, Bryn Rd., Llambled, 4. 188, Mr. Aneurin Davies, Tycapel, Parcyrrhos, 5. 186, Mr a Mrs. Eurwyn, Gilgell Uchaf, Parcyrrhos, 6. 152, Miss. Rhian Jones, Hafod, Cwmann, 7. 81, Mr. Eurig Davies, Manglas, Parcyrrhos, 8. 149, Mrs. Helen Randell, Maeshendre, Cwmann, 9. 197, Jan c/o Bryngolau, Cwmann, 10. 113, Mrs. Jean Jenkins, Oranmore, Cwmann.

Clwb 125 Mis Medi

1. Dafydd Lloyd, Penybont, Pumsaint, 96, 2. Mrs. L. Edwards, Cwmann, 131, 3. Mrs. P. E Jones, Cilgell Isaf, Cwmann, 77, 4. Canon W. Richards, Maesteifi, Cwmann, 143, 5. Mrs. M. Davies, 2 Nantyglyn, Cwmann, 93, 6. Mrs. Y Thomas, Flat 1, Priordy, St. Thomas, 5, 7. Mr. Edwin Evans, Brynderw, Cwmann, 4, 8. Mrs. E. Davies, Cwmann, 83, 9. Mr. Ch. Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder, 99.

Arholiad Telyn

Llongyfarchiadau i Mari Lewis, Tycerrig ar lwyddo mewn arholiad telyn ABRSM gradd 3 gyda 'merit'. Hyfforddir Mari gan Georgina Cornock.

Ysgol Carreg Hirfaen

'Myfi fy hun' yw thema'r tymor yng Nghyfnod Allweddol 2 ac ar ddechrau mis Medi aeth disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yr ysgol i gymryd rhan mewn diwrnod o weithgareddau awyr agored yng Nghwm Rheidol. Nod y diwrnod oedd dangos i'r plant fod modd mwynhau amrywiaeth o weithgareddau hamdden yn yr awyr agored gan hybu ffitrwydd personol a ffordd iach o fyw. Aeth pymtheg o ferched i ddatblygu sgiliau marchogaeth a dysgu am ofalaeth ceffylau (sgiliau stabl) yng Nghanolfan Farchogaeth Rheidol ger Capel Bangor. Aeth pymtheg eraill o'n disgyblion i Ganolfan Feicio Nant yr Arian, Ponterwyd, i ymarfer sgiliau Beicio Mynydd, a grŵp arall o bedwar i fwynhau cerdded y llwybrau troellog sydd o gwmpas y goedwig hyfryd yno.

Cwmann

Cafwyd sawl codwm, llawer o chwerthin a llawer o hwyl, a braf dweud bod pawb wedi dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel, yn holliach ac wedi mwynhau'u hunain yn fawr iawn. Diolch i staff Canolfan Farchogaeth Rheidol ac Arwel Jones (Swyddog 5-60) am ein harwain yn ddiogel yn ystod y diwrnod.



Cafwyd prynhawn hyfryd yng nghwmni athrawon cerddoriaeth y sir yn neuadd ysgol Tregib yn ystod y mis. Cawsom glywed amrywiaeth o offerynnau yn chwarae a chaneuon o High School Musical a Lion King. Mwynhaodd y plant yn fawr ac edrychwn ymlaen at gael fynd eto.

Sefydliad y Merched

Ar ddydd Mercher 5ed o Fedi aeth y Gangen i weld ffatri 'waffles' yn Nhregroes ger Llandysul a chawsom ein tywys i weld sut yr oeddent yn cael eu gwneud. Ar ôl cael te yn Llandysul aethom i'r Grannell yn Llanwnnen am bryd o fwyd. Talwyd y diolchiadau gan Morfudd Slaymaker. Enillwyd y raffl gan Noeleen Davies.

Ar Hydref 1af, cynhaliwyd ein cinio blyneddol yn Ysgubor Teile, Bwlch-llan lle cafwyd gwledd bendigedig.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rosmary James gynt o Barcyrhos ar herio athletwyr y byd yn rownd Cymru o driathlon Ironman a gorffen y cwrs nofio 2.4 milltir, 113 milltir ar y beic a rhedeg marathon llawn. Bu rhaid gwneud pob cymal o fewn amserlen a'r cyfan o fewn 17 awr.

Daeth y freuddwyd o gynnal Ironman tua 1977/78 gan ŵr a gwraig a oedd wedi blino ymarfer rhedeg yn unig, a dyma ychwanegu nofio a beicio; gwelwyd y gystadleuaeth gyntaf yn Hawaii ble y cynhelir pencampwriaeth y byd erbyn hyn. Mae'r triathlon hwn yn brawf eithaf o'r corff, meddwl ac enaid ac mae'n dangos fod unrhyw beth yn bosibl.

Cafodd triathlon ei gyflwyno i'r campau olympaidd yn Sydney 2000 gyda chwrs bychan 1500 medr nofio, 40 k beicio, a rhedeg 10k.

Dechreuodd Rosmary yn dda iawn ond daeth y gwynt a'r glaw i amharu, ond diolch i ffrindiau a chefnogwyr am ei hannog ymlaen i orffen. Hoffai ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mor hael at apêl cancr, er cof am Llinos ei mam. Trwy ymdrech Rosmary fe fydd Caner UK yn elwa tua £1200.

Cyngerdd

Bois y Castell, Joy Cornock

ac artistiaid eraill

Nos Sadwrn, Hydref 13eg
yn Neuadd Ysgol Bro Pedr [Cynradd]
am 7.30y.h.

Pris Mynediad: **£6.00** drwy docyn yn unig
Croeso cynnes i bawb.

Colofn y C.F.F.I.

Mae'n fis Medi eto, dechrau blwyddyn newydd yn yr ysgol ac amser ailymaelodi â'r C.F.F.I ! Dechreuodd y mis gyda chyfarfodydd pwyllgorau'r sir yn swyddfa'r mudiad ar gampws theatr Felinfach ar y 5ed. Yn y Fforwm Ieuenctid etholwyd Gwawr Hatcher, Llanwenog yn Gadeiryddes gyda Carwyn Davies, Llanwenog yn Is-Gadeirydd ac Elin Calan Jones, Llangwryfon yn Drysorydd. Ar y Pwyllgor Materion Gwledig, etholwyd Emyr Evans, Felinfach yn Gadeirydd gydag Arwel Jenkins, Llanwenog yn Is-Gadeirydd ac Elen Thomas, Pontsian yn Drysorydd. Etholwyd Gwennan Davies, Llanwenog yn Gadeiryddes y Pwyllgor Gweithgareddau gyda Mererid Davies, Pontsian yn Is-Gadeiryddes a Caryl Haf, Llanddewi Brefi yn Drysorydd.

Ar y dydd Gwener a Sadwrn (14eg a 15fed) o Fedi trefnwyd diwrnod 'Dathliad ffermio a bywyd cefn gwlad' ar fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron. Cafwyd diwrnod hwylus dros ben ar y dydd Gwener gyda dros 250 o blant o ysgolion lleol yn dysgu sut mae eu bwyd yn cyrraedd eu platiau, ac am wahanol gynhyrchion y fferm. Ar y dydd Sadwrn gwnaeth dros 500 o dwristiaid a phobl lleol fanteisio ar y cyfle i addysgu'u hunain am sut mae cynhyrchion y fferm yn cael eu defnyddio. Llwyddiant mawr i'r mudiad yn sicr.

Cynhaliwyd 'AGM' y mudiad yn neuadd Mydroilyn ar nos Fercher y 19eg. Etholwyd Emyr Lloyd, Tregaron yn Gadeirydd gydag Einir Ryder, Pontsian yn Is-Gadeiryddes iddo, a Teleri Morris-Thomas, Pontsian yn Drysorydd. Etholwyd Dan Davies, Fronfedw yn Llywydd a Gareth Evans, Hafod yn Is-Lywydd. Mae'r diolch pennaf hefyd i gyn-Gadeiryddes a chyn-Lywydd y sir, sef Manon Richards ac Eifion Morgans am eu holl waith drwy gydol y flwyddyn.

Enillwyr clwb 200; Mis Awst – 1af – T.R.& M.E Davies, 2il – Gillian Harries, 22 Parc yr Hydd, Ciliau Aeron, Llambod, 3ydd – Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir, Cwrtnewydd, Llanybydder. Mis Medi – 1af – Ann Lloyd Thomas, Llwynderw fach, Llanarth, 2il – Heather Price, Esgereinon, Llanwenog, Llanybydder, 3ydd – Lora ac Eurig Davies, Dyffryn, Aberporth, Aberteifi.

Cofiwch os ydych am ymaelodi, ewch ar y wefan am ragor o fanylion www.yfc-ceredigion.org.uk

Eisteddfod Felinfach



Lois Mai, Cwmsychbant yn ennill y cyntaf ar ganu emyn dan 9 oed.



Sara Elan yn fuddugol ar y llefaru 8-10 ac ar y Gân Werin dan 12oed.



Lowri Elen yn gyntaf ar Unawd 12-16; Cân Werin 12-16 a'r Canu Emyn 12-16.



Siwan Davies, Llanwenog yn ennill Tlws Ieuenctid dan 25 oed am gerdd rydd ar y testyn 'Trydar'.

S4/C

Calon Cenedl
ers 30 mlynedd

Rhaglenni arbennig i ddathlu
pen-blwydd S4C

S4C yn 30

Atgofion y gwylywyr a chlipiau o'r archif
ers dechrau S4C ar 1 Tachwedd 1982

Plant y Sianel


Hanes cenhedlaeth o Gymry gafodd
eu geni 30 mlynedd yn ôl

Gwynfor

Drama ddogfen am flwyddyn dyngedfennol ym
mywyd Gwynfor Evans ac yn ymgyrch y Sianel

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Cymanfa i ddathlu'r pen-blwydd



30



2012

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

12fed o
Hydref

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

Neuadd
Felin-fach

Mynediad £1

Arweinydd y noson
Geraint Lloyd

Beirniaid
Dylan Iorwerth
ac Elin Williams

Y TINCER

Y Barcud

y Garthen

Yr Angor

Llais Aeron

CLONC

Y GOLEN

Y Gambo

O'r Llwyfan

Dweud
Stori
Ddoniol

Datganiad
llwyau,
i gyfeiliant,
neu'n
ddigyfeiliant

Sgets, gyda dim mwy na
chwech mewn nifer yn y
grŵp, neu ddeialog, i bara
dim mwy na phum munud.
Testun - cwynion i'r golygydd.

Llefaru -
darllen
darn heb
ei atalnodi

Côr Garglo
Rhoddor y dôn ar y noson

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3
i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd.
Cyflwynir tlws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd
â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Cefnogwch eich papur bro!



Gwaith Cartref

Slogan - i ddenu pobl i'r Eisteddfod Ddwl.

Ar gyfer dysgwyr:
Ysgrifennu dyddiadur gwyliau - dim mwy na 300 o eiriau.

Ar gyfer plant oed cynradd:
Peintio Hunan Bortread.

Ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed:
Llythyr mynegi barn - dim mwy na 300 o eiriau
o ddiddordeb i ddarllenwyr eich papur bro.

Llunio brawddeg,
gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau
C-Y-S-T-A-D-L-U

Gorffen llinig - "Un noson wrth fynd lan i'r gwely"
Creu poster yn hysbysebu papur bro.

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion
cyswllt ac enw papur bro mewn amlen wedi atodi)
erbyn y 5ed Hydref i:
CLONC, Tycerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET.
Mwy o fanylion oddi wrth Dylan Lewis, Papur Bro Clonc,
07794741011, cadeirydd@clonc.co.uk

Llanfair

Llongyfarchiadau

Da oedd clywed fod Ceris Quan,
Sŵn yr Afon, wedi gwneud mor dda
yn ei arholiadau A.S. ac hefyd wedi
pasio'i phrawf gyrru. Da iawn ti.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr i Jean,
Siop Llanfair, sydd wedi torri'i
braich mewn damwain ar ei beic tra
ar wyliau yn Ffrainc.

Beth sydd mla'n

Cyrddau Diolchgarwch:

Capel Mair, nos Iau, Hydref 11eg
am 7yh gyda'r Parchg Richard
Lewis, Aberystwyth.

Eglwys Santes Fair, nos Iau,
Hydref 18fed am 7yh, gyda'r Parchg
Bill Fillery, Llambled.

Bydd plant Ysgol y Dderi yn
cynnal gwasanaeth diolchgarwch
yng Nghapel Mair am 10 o'r gloch y
bore. Croeso cynnes i bawb i bob un.

Hydref 20fed: Noson o hwyl,
sbri a dawnsio gyda'r band 'Fat
Spanners'. Croeso cynnes i bawb.
Am fwy o fanylion gweler y poster
yn Siop Llanfair.

Priodas Dda

Dymuniadau gorau i Elinor
Jones, Clos-yr-efail ar ei phriodas
ag Aled Morgan, Gorwelion, Heol
Maestir, Llambled yn ddiweddar.
Pob hapusrwydd i chi yn eich cartref
newydd yn Llambled.

Clwb Clonc

Hydref 2012

£25 rhif 283 :

Tim a Joan Jones,
Llainwen, Rhodfa Glynhebog,
Llambled.

£20 rhif 52 :

Lowri Davies,
Yr Encil, Cysgod y Coed,
Cwmann.

£15 rhif 250 :

Wyn Jones,
Hendai, Cwmann.

£10 rhif 85 :

Emyr Davies,
Afallon, Drefach.

£10 rhif 23 :

Dilwyn Davies,
Alwyn, Llanwnnen.

£10 rhif 290 :

Mrs Betty Jones,
Delfan, Cwmsychpant.

Rhifyn mis Hydref

Yn y Siopau

4ydd Hydref

Erthyglau, Newyddion

a Lluniau i law erbyn

24ain Medi

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled

01570 422895

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Croeso nôl i bawb ar ôl gwyliau'r haf. Ar ddechrau'r tymor hoffem groesawu disgyblion newydd i'r Cyfnod Sylfaen sef Dwynwen Williams a Teleri Evans, a hefyd Kelvin Rice, Kiera a Sophie Rogers i'r Adran Iau. Hefyd estynnwn groeso cynnes i Mrs Eirlys Jones, athrawes newydd yn y Cyfnod Sylfaen, a Mrs Liz Williams fel cynorthwydd yn yr ysgol.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i gyn-ddisgyblion blwyddyn chwech yr ysgol am gyflwyno rhodd unigryw, sef croes 'stain glass' i'r ysgol, fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'u cyfnod yn yr ysgol. Roedd hyn yn syniad hyfryd a diolch o galon iddynt.

Mae'r plant eisoes wedi cal cyfle i fynychu nifer o glybiau ddiwedd dydd yr ysgol sef y Clwb Cadw'n Heini, Yr Urdd a'r Clwb Gitâr.

Bu'r plant yn brysur iawn yn ystod tymor yr haf yn paratoi gwaith celf ac ati ar gyfer amryfal gystadlaethau yn sioeau Gorsgoch a Chwmsychbant. Pleser oedd clywed taw Ysgol Llanwenog oedd yn fuddugol yn sioe Gorsgoch a derbyniodd y plant darian sialens y sioe am eu cynnyrch.

Dyma enwau'r enillwyr o'r Ysgol - Arlunio Dosb Derbyn - Hannah Ayonadu 1af, Harri Rivers 3ydd. Arlunio Bl 3 a 4 - Hafwen Davies 1af, Liam Day 2il, Roseana Roach 3ydd. Llawysgrifen Bl 5 a 6 - Ben Lewis 2il.

Dyma'r enillwyr yn Sioe Cwmsychbant: Arlunio Bl 6 - Sion Davies 2il, Arlunio Bl 3 - Hafwen Davies 2il. Llawysgrifen Bl 5 - Ben Lewis. Llongyfarchiadau i bawb.

Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a wnaeth helpu i drefnu Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog. Er gwaetha'r tywydd difrifol cafwyd diwrnod hwylus a chodwyd dros £2,000 i goffrau'r ysgol.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol yn Eglwys Sant Gwennog ar

brynhawn Mercher, Hydref 10fed am 2 o'r gloch. Estynnwn groeso cynnes i bawb yn y gymuned i ymuno â ni.

Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn trefnu ras hwyl i blant ac oedolion ar fore Sul y 7fed o Hydref. Bydd ras y plant cynradd yn dechrau am 11 y bore ac wedyn bydd ras i blant uwchradd, cyn y brif ras o 6 milltir i oedolion. Cewch ffurflen gystadlu o'r ysgol neu ar y dydd. Bydd lluniaeth ar gael drwy'r bore.

Enillwyr Clwb Cant

Mis Mehefin 1. Peter Davies; 2. Shirley Davies; 3. Tomos Evans.

Mis Gorffennaf 1. Dai Jones; 2. Harri Rivers; 3. Ffion Evans.

Mis Awst 1. John Davies; 2. Mary Davies; 3. Malcom Gregson.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth tymor triplau'r haf i ben ym mis Medi, ac unwaith yn rhagor bu'r diwrnod yn ffafriol er gwaethaf y rhybuddion am dywydd garw.

Taith i Fro Gŵyr oedd hi'r tro yma, ond arhoswyd yng Nghwm Cerrig am banded, cyn mynd ymlaen i Parkmill. Cafwyd hanes yr hen le gan un o'r gweithwyr yno; adeiladwyd y felin yn yr unfed ganrif ar ddeg gan deulu'r de Breos. Mae'r dŵr sy'n ei throï yn rhedeg am 80 o filltiroedd dan ddaear o Fannau Brycheiniog, ac mae'r rhod yn dal i droi. Roedd yno gasgliadau o hen offer a siopau celf a chreffft ar yr un safle, ac mae'n ganolfan dda i ymwelwyr. Ymlaen wedyn i Rosili, a chael awyr y môr a mwynhau'r olygfâ ragorol cyn cychwyn yn ôl tua Llangennech am swper, a phawb wedi mwynhau.

Bydd cyfarfod cyntaf tymor y gaeaf ar ddydd Mercher, Hydref 10fed am 1.30yp yng Nghapel Brynteg. Braff byddai gweld ffrindiau newydd yn ymuno â'r Gymdeithas - croeso cynnes iddynt.

Cylch Meithrin Gwenog

Ar ddiwrnod braf ddiwedd tymor yr Haf, cynhaliodd Cylch Meithrin Gwenog Fabolgampau'r Cylch ar gaeau Ysgol Gynradd Llanwenog. Cafwyd nifer o rasys amrywiol a chafodd pob plentyn erbyn diwedd y prynhawn fedal hardd i fynd adref gyda nhw.

Hoffem groesawu Nia Ayonoadu, Fflur Morgan, Gethin Jones Thomas a Lola Walker i'r Cylch ar ddechrau'r tymor newydd. Hefyd, croesawn Miss Lorna Davies fel cynorthwydd newydd. Mae'n braf i weld eich bod chi gyd wedi ymgartrefu'n fendigedig yn ein plith.

Ar ran Pwyllgor Cylch Gwenog hoffem ddiolch i bawb a gefnogodd ein Taith Gerdded Noddedig, boed hynny trwy gymryd rhan neu nodd cerddwyr. Casglwyd tua £550 ar gyfer y Cylch. Cafwyd bore sych wrth gerdded tua dwy filltir ac yna cafwyd picnic i ginio yn ôl ar safle'r Ysgol.

Gweler yn y llun isod y sawl a fu'n cerdded bore dydd Sadwrn 15fed yng nghwmni Peppa Pinc!

Ein thema ni y tymor hwn yw 'Trafnidiaeth' ac rydym wedi bod yn brysur yn creu tractorau mawr, lliwgar i gyd-fynd â'r thema.

Pe byddech eisiau gwybod mwy am y Cylch ffoniwch yr Ysgol 01570480382 a siarad â Mrs Abigail Gregson, sef arweinydd Cylch Meithrin Gwenog.

Eglwys Santes Gwenog

Mae tymor yr Hydref yn arwain at Gyrrddau Diolchgarwch. Er y tywydd anffafriol a wnaeth hi'n anodd ar amaethwyr i gynhaefu'u cnwd,

mae'n rhaid i ni fod yn ddiolchgar am yr hyn a arbedwyd. Cynhaliwyd ein Cyfarfod Diolchgarwch Nos Lun 1af o Hydref gyda lluniaeth yn dilyn yn yr Eglwys Fach. Ar Fedi 19eg cadeiriwyd cyfarfod y P.C.C. gan ein Ficer y Parch Suzie Bale. Cadarnhawyd y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yn y misoedd nesaf. Ar brynhawn Mercher y 10fed o Hydref bydd plant ysgol Llanwenog yn cynnal eu Cwrdd Diolchgarwch. Croeso i chwi ddod i gefnogi'r plant a'u hathrawon.

Ar Hydref 21ain bydd cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân yn yr Eglwys am 7 o'r gloch. Tocynnau yn £5.00 i oedolion a £2.00 i blant. Ar y 23ain o fis Tachwedd cynhelir Cwis, y pris fydd £5.00 yn cynnwys caws a gwin.

Ym mis Rhagfyr bydd Clwb Cledlyn yn cynnal Noson Ceginio yn yr Eglwys Fach.

Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol ar brynhawn Sul Rhagfyr 16eg. Bydd plant yr ysgol yn ein cynorthwyo. Bydd lluniaeth tymhorol i ddilyn.

Dymuniadau gorau i Mrs Caroline Davies, Llyserdi sydd wedi ymddeol o'i swydd yn Adran Mathateg Ysgol Gyfun Bro Pedr wedi 35 o flynyddoedd. Dymunwn yn dda iddi hi a'i phriod Geraint sydd wedi ymddeol o'i swydd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llambled.

Mae ein Trysorydd Mrs Lynne Goodall yn ein hatgoffa fod y tâl o £10 am aelodaeth Clwb 100 yn ddyledus diwedd mis Hydref. Mae croeso i unrhyw un ymaelodi.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i bawb sy'n dioddef anhwylder.



Gweler yn y llun rai o blant Cylch Meithrin Gwenog yn ystod Mabolgampau'r Cylch.



Plant a rhieni Cylch Meithrin Gwenog gyda'u cefnogwyr yn cychwyn ar eu taith gerdded flynyddol i godi arian i'r Cylch Meithrin. Codwyd £550.

Drefach a Llanwenog



Arddangos Gwartheg

Llongyfarchiadau i Ian a Carwyn, Gwarcoed Einon ar eu llwyddiant eleni eto yn y Sioe fawr yn Llanellwedd ac mewn sioeau lleol gyda dwy o Heffrod Duon Cymraeg – Gwenno a Lleucu. Daeth Gwenno i'r brig fel y fuwch orau am yr eildro'n olynol.

Clwb 100 Awst

Iaf Emyr Jones, Awelon.; 2ail Sian Jones, Awelon. 3ydd Wyres Lynne a Keith Goodall yn Iwerddon.

Gwellhad Buan

Cofiwn at Eleri Jones, Dyffryn yn dilyn ei llawdriniaeth yn Abertawe yn ddiweddar. Gobeithio Eleri dy fod ar wellhad erbyn hyn.

Cydymdeimlo

Danfônwn ein cydymdeimlad dwysaf â Robert a Gillian Jones, Arnant yn dilyn marwolaeth mam Robert set Mrs Lilian Jones, Central Garej, Llanwnnen, fis Medi.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar y 10fed o Fedi, bu'r clwb yn mwynhau noson yr arweinyddion yn Ysgol Cwrtnewydd. Roedd hi'n noson llawn hwyl a sbri, ac yn gyfle i ddod i nabod aelodau newydd y clwb.

Bu rhai aelodau yn dysgu hyfforddi barnu stoc ar yr 17eg o Fedi yn Tŷ Cam lle'r oeddent yn barnu biff, ac yn Fron Heulog yn barnu ŵyn tew a biff. Roedd yn gyfle i ymarfer ar gyfer y diwrnod maes.

Noson gêmâu tafarn yn Nhafarn Cefn Hafod oedd gweithgaredd y 24ain o Fedi. Noson hwylus gyda'r aelodau yn ymarfer ar gyfer y



Cangen Llanbedr Pont Steffan Cymdeithas Adeiladu Principality yn noddi dillad tîm pêl-droed dan 12. Clare Holmes, hyfforddwr tîm dan 12 gyda Iestyn Evans, Rhys Davies, Osian Jones a Leon Holmes, yn derbyn y gwisg newydd gan Nia Richards ac Abby White o'r Principality.

Chwaraeon Dan Do.

Roedd yn braf gweld aelodau newydd yn ymuno â ni yn y clwb. Croeso i ragor aelodau newydd sydd â diddordeb i ymuno'n yr hwyl.



Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?
Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?
Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.
Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

O'r Cyngorau Bro

Cyngor Tref Llanbedr

Y Maer: Kistiah Ramaya; Clerc: Eleri Thomas; Cyngorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cyngorydd Sir: Ivor Williams.

Cyfarfu'r Cyngor ar 30 Awst 2012 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Andrew Carter.

Plismona - Nodwyd bod car glas yn dal i creu trafferthion wrth y fynedfa i Lôn Picton. Roedd y Cyngor Sir a'r heddlu wedi'u hysbysu.

RAY Ceredigion - Yn ei chyflwyniad soniodd Helen Lewis am y sesiynau chwarae misol (bob trydydd Sul) ar Gae Maesyderi rhwng 11am a 3pm. Roedd y sesiynau'n cael cefnogaeth gan blant o dair ysgol leol a'r nod yw dysgu sgiliau byw i blant ag anghenion arbennig. Byddai'r cyngor yn ystyried a allent gefnogi'r fenter ymhellach.

Taflenni Gwybodaeth - Mae mil o gopïau wedi'u hargraffu gan y Brifysgol ac roeddent ar gael i'w dosbarthu i'r cyhoedd yn y Ffair Fwyd.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Bill Green; Clerc: Gwennan Davies

Cyfarfod mis Medi.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn trafod gyda Chyngor Sir Ceredigion i gael safle bws gyferbyn â chapel Alltlyblaca. Mae wedi'i gymeradwyo a gobeithir y bydd yn ei le cyn diwedd y flwyddyn.

Mae llwybrau'r ardal wedi'u glanhau yn ddiweddar dan gynllun Glanhau Prysgwydd.

Mae ciosgs coch y plwyf bellach yng ngofal y Cyngor Cymuned. Talwyd am lanhau pob un ohonynt a bydd C.Ff.I. Llanwenog yn hel syniadau yn y gobaith o ddefnyddio'r ciosgs yn y pentrefi ar gyfer darparu gwybodaeth. Byddwch effro i hyn.

Roedd postyn llwybr Pant, Highmead, wedi torri ond mae bellach wedi ei drwsio gan y Cyngor Cymuned.

Bydd goleuadau'r plwyf yn diffodd rhwng 11yh a 5yb.

Derbyniwyd llythyr gan y Swyddfa Bost i'n hysbysu eu bod mewn trafodaethau â gwahanol fusnesau yn ardal Llanwnnen i ddarparu gwasanaeth i'r ardal.

Cyflwynwyd arian i wahanol elusennau yn ystod y misoedd diwethaf, elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae sedd haearn newydd wedi'i gosod ar safle Cae Sarn, Cwrtnewydd.

Mae cysgodfan bws Cwrtnewydd wedi'i difrodi unwaith eto. Hysbyswyd yr heddlu a bydd y Cyngor Cymuned yn ei drwsio'n fuan.

Gofynnwyd am fesurau arafu traffig ym Mrynteg; adroddwyd o'r Cyngor Sir bod 9 mis o restr aros nes y bydd swyddog o'r Cyngor yn medru mynychu'r safle i'w asesu oherwydd prosiectau mawr sydd ar y gweill o fewn y sir ar hyn o bryd.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth annedd yng Ngorsgoch yn gofyn i'r cyflymder gael ei ostwng i 30mya yn y pentref a'i ymestyn i derfyn y tai ar heol Synod Inn. Cafwyd ymateb wrth y Cyngor Sir yn dweud y byddant yn adolygu pob dalgylch cyflymder yn y sir cyn bo hir.

Mynychodd y Cadeirydd lansiad swyddogol Bwcabus yn ddiweddar.

Derbyniwyd adroddiad cyfarfod Un Llais Cymru gan y Cyngorydd Mary Thomas.

Rhydian Williams sydd yn olynu Digby Bevan fel Swyddog Hwylusydd Tai Gwledig, gyda newidiadau yn debygol o ddigwydd gan edrych ar dai gwag ar draws y sir. Mae Cynnal y Cardi yn rhoi grantiau i Gynghorau Cymuned e.e. cafodd Aberaeron olau o amgylch yr harbwr. Adroddodd David Lewis Civil Contingency Officer am y llifogydd, gydag Ellen ap Gwynn yn apelio am gymorth ariannol. Siaroddod cwmni 'Trysor' am fyrddau treftadaeth. Siaradwyd am gael fwy o bwerau i gynghorau cymuned, ond byddai hyn yn golygu y bydd angen i'r clerod gael tystysgrif mewn gweinyddiaeth leol. Nid oedd Cyngor Cymuned Llansantffraed yn hapus â'r cyfnod ymgynghori i'r ceisiadau cynllunio. Roedd pryder am israddio gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais.



Llangybi

Maesyffynnon

Cynhaliwyd cyngerdd blynyddol Maesyffynnon ar nos Sul, Medi'r 2il. Y diddanwyr oedd Cwmni Camddwr a chafwyd noson fendigedig yn eu cwmni gydag amrywiaeth eang o safon uchel.

Nifer fechan oedd y rhif ond artistiaid gwych fel unigolion a pharti. Erys y noson yn y cof am hydoedd. Y wraig wadd oedd y Parch Eirlys Gruffydd (Y Mans gynt) ac fe gofiodd hithau am gapel ei mebyd yn anrhydeddus iawn. Llywyddwyd y cyfarfod gan Sally Davies a threfnwyd y noson gan Mair Morgan.

Merched y Wawr

Dechreuwyd y tymor newydd trwy fynd am drip i Bontarfynach. Croesawyd pawb yn gynnes i'r cyfarfod gan Gwyneth Jones, y llywydd. Ymweld â'r 'Caban' yr oeddem ac yno gwelsom ddanteithion siocled yn cael eu gwneud gan Sarah Bunton – merch sydd yn adnabyddus iawn yn y grefft. Roedd yn waith diddorol a phawb wedi mwynhau hunain. Cyn dychwelyd adref cafwyd swper blasus yn y 'Caban'.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 17eg a disgwylir Ifan Gruffydd i'n diddanu.

Hamdden

Fe fydd y cyfarfod cyntaf ar brynawn Gwener Hydref 5ed yn Ysgol y Dderi am 2 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Arwel Jones – un sydd â diddordeb mawr mewn Cobiau Cymreig. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Diolch

Dymuna Rowena Williams, Maeslyn ddiolch yn ddiwyll i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch hefyd i David, Rhianon, Alunda a Helen. Mawr ddiolch i bawb.

Cffi Bro'r Dderi

Cynhaliwyd ein cinio clwb ar ddechrau'r haf eleni yn Ysgubor Teile a chafwyd noswaith bleserus iawn yng nghwmni'n llywyddion, Odwyn ac Ann Davies, Llangybi. Hoffem fel clwb ddiolch iddyn nhw am eu



Yn ystod yr wythnos bu'r holl blant yn brysur yn casglu sbwriel o dir yr ysgol ac o gwmpas y pentref, gan ei bod hi'n Wythnos Cadw Cymru'n Daclus. Braf yw gweld plant sy'n ymfalchïo yn eu hamgylchedd ac sy'n awyddus i'w warchod.

gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar ôl rhannu'r gwobrau unigryw (a doniol!) bu pawb yn dawnsio'n y disgo am weddill y noson. Llongyfarchiadau i Delyth Evans ar ennill gwobr aelod y flwyddyn. [Llun ar dudalen 23]

Llongyfarchiadau hefyd i Gethin Morgan a Delyth Evans a ddaeth yn drydydd yn y Sioe Frenhinol am goginio 'canapes' ac yn rhan o'r tîm a enillodd gystadleuaeth yr aelodau.

Yn ein cyfarfod blynyddol buom yn ethol ein swyddogion am y flwyddyn nesaf a phob lwc iddynt yn eu swyddi.

Mae amserlen gyffrous gan y clwb dros y gaeaf a chroeso i unrhyw aelodau newydd ymuno â ni.

Ysgol Y Dderi

Ar ddechrau blwyddyn addysgol fel hyn, estynnwn groeso cynnes i aelodau newydd o staff, ac wrth gwrs i'r plant hynny sydd wedi ymuno â ni yn Ysgol y Dderi. Gobeithio y bydd pob un ohonynt yn hapus iawn yn ein plith. Croeso nôl, yn ogystal, i Miss Lilian, sydd eisoes wedi dychwelyd atom ar ôl ei chyfnod mamolaeth. Soniais yn rhifyn diwethaf Clonc ein bod yn aros yn eiddgar am newyddion gan Mrs Kate, Blwyddyn 2, a gychwynnodd ar ei chyfnod mamolaeth hithau ddechrau Gorffennaf - ac yn wir, ar yr 20fed o Orffennaf, fe anwyd Lili Marie. Llongyfarchiadau

mawr i Mrs Kate a'i gŵr, Ollie. Edrychwn ymlaen at gyfarfod â Lili yn Ysgol y Dderi!

Cynhaliwyd ein taith gerdded nodedig flynyddol ar nos Wener yr 21ain o Fedi. Cawsom noson braf i gerdded o faes parcio coedwig Longwood, ar hyd y llwybr ac i lawr i Glwb Rygbi Llambled, lle cafodd pawb fwynhau noson gymdeithasol gyda disgo a chŵn poeth blasus. Bydd elw'r daith a'r noson yn mynd at gronfa'r ysgol. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Daeth Techniquet i ymweld â ni unwaith eto, ac roedd cyfle i bob dosbarth fwynhau gweithgareddau oedd yn ymarfer eu sgiliau rhifedd.



Llongyfarchiadau mawr i Tirion Lloyd, Blwyddyn 4, a enillodd nifer o wobrau am ferlota yn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Da iawn ti Tirion, rydyn ni i gyd yn falch iawn o dy lwyddiant!

Ceris Jones

yn trin gwallt yn eich cartref



Torri a sychu, steilo a lliwio, cwilo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisiau rhesymol a Diwrnod gostyngiad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewisc.co.uk

Hefyd yn/Also i
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG

Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd
13 Stryd y Bont, Llambled
01570 422009



Ar agor:
12:00-14:30 a 17:00-23:00

Cynigion arbennig bwffe
ac amser cinio

Darllenwch ein bwydlen
a'n cynigion arbennig ar Facebook

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol. Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llambled

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llanbedr Pont Steffan

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar 12fed o Fedi, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn: Dynion – 1af. Yvonne Jones, Tregaron, 2il. Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach, 3ydd. Peter Jones, Llambled, Merched – 1af. Miriam Jones, Aberaeron, 2il. Nana Davies, Stryd Newydd, Llambled, 3ydd. Lil Thomas, Ffostrasol. Carden Miniature : Dynion – Daniel Jones, Aberaeron, Merched – Margret Jones, Pentrebach, Llambled, Bwrw Allan: Enillwyr – Gwendoline Davies, Llanwnnen a Miriam Jones, Aberaeron, Ail – Lil Thomas, Ffostrasol a Ray Jenkins, Llanybydder.

Enillwyr 29ain o Awst fel a ganlyn : Dynion – 1af. Daniel Jones, Aberaeron, 2il. Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach, 3ydd. Gwendoline Davies, Llanwnnen, Merched – 1af. Cathrina Davies, Aberaeron, 2il. Miriam Jones, Aberaeron, 3ydd. Nana Davies, Stryd Newydd, Llambled. Carden Miniature: Dynion – Edward Lockyer, Hafan Deg, Llambled, Merched – Ceri Lloyd, Ffostrasol, Bwrw Allan: Enillwyr – Breian James, Trelech a Cathrina Davies, Aberaeron, Ail – Gwen Davies, Llanwnnen a Miriam Jones, Aberaeron. Bydd gyrfa chwist mis Hydref ar y 10fed a'r 24ain. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr Cangen Llanbedr Pont Steffan

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar nos Lun, Medi 10fed yn Festri Sheilo. Llywyddwyd y cyfarfod gan Morwen Thomas yr is-lywydd. Cyfeiriodd at farwolaeth annisgwyl mam y llywydd Noleen Davies yn gynnar fore Llun. Mynegodd gydymdeimlad dwysaf ar ran yr aelodau â Noleen a'i phriod a'r cysylltiadau i gyd. Yr un modd estynnodd gydymdeimlad dwysaf â Twynog Davies a theulu Frondolau ar farwolaeth Hazel. Bu Hazel yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r gangen ar hyd y blynyddoedd. Roedd bob amser yn barod ei chymwynas a dim yn ormod iddi i'w wneud; person arbennig iawn. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdani. Cydymdeimlwyd hefyd â llawer aelod arall oedd wedi colli anwyliad yn ystod yr haf. Trist iawn yw cofnodi fod un o'n haelodau Nancy Jones wedi gorfod mynd i Gartref Hafan y Waun. Bu'n aelod gweithgar a ffyddlon o'r gangen. Rydym yn gweld eich eisau ac yn meddwl amdanoch. Diolchodd Morwen i'r saith aelod, Janet, Avril, Eryl, Dilwen, Noleen, Gwyneth a Margaret ynghyd ag aelodau ac ieuenctid Capel Noddfa a

gymerodd ran yng ngwasanaeth fore Sul penwythnos Merched y Wawr yn y Coleg. Cyflawnodd pawb eu gwaith yn ardderchog – penwythnos i'w gofio. Croesawodd yr is-lywydd ein gwraig wadd am y noson, Sylvia Rees. Mae'n enedigol o Drelech ond yn ei ugeiniau cynnar aeth dramor i weithio; dychwelyd wnaeth ag ymgartrefu gyda'i phriod a'r teulu yn Llanwinio. Mae'n ymddiddori llawer mewn ysgrifennu barddoniaeth ac wedi ennill Cadair Eisteddfod Sefydliad y Merched Sir Gâr. Darllenodd benillion o'i gwaith ei hun a threuliasom orig ddiddorol iawn yn ei chwmni. Diolchodd Ann Morgan yn gynnes iawn iddi am ddod atom a diolch hefyd i'r dair a fu'n gweini wrth y te sef Mary Davies, Margaret Roberts ac Irene Jones. Enillydd y raffl fisol oedd Dorothy James. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Hydref 8fed pryd y disgwylir Meirion Jones yr arlunydd atom.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau calonnog i Beryl Davies o Landdewi Brefi, un o aelodau Noddfa, ar ei llwyddiant yn y maes eisteddfodol unwaith eto. Cipiodd Beryl y wobr gyntaf am ysgrifennu soned ar Henry Richard yn Eisteddfod Tregaron.

Treuliodd Beryl ychydig wythnosau yn Hafandeg yn ddiweddar yn dilyn cwmp yn ei chartref. Mae Gweinidog ac aelodau Noddfa yn falch o glywed eich bod yn well erbyn hyn Beryl ac yn anfon eu cyfarchion cynnes.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Noddfa

Cafodd rhai o ieuenctid Noddfa ynghyd â'u mamau yr anrhydedd o gymryd rhan mewn oedfa arbennig yn Neuadd y Celfyddydau Prifysgol Y Drindod Dewi Sant yn ddiweddar fel rhan o benwythnos Genedlaethol Merched y Wawr. Roedd 350 o aelodau o bob cwr o Gymru yn bresennol. Lluniwyd yr oedfa gan Janet ar y thema Perthyn. Cyflwynwyd darlleniadau, gweddïau ac adroddiadau graenus gan Avril, Dilwen, Eryl, Gwyneth, Janet a Noleen o gangen Llambled. Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan ddatganiad swynol Lisa, Beca ac Elan a pherfformiadau cerddorol Lowri Elen, Alwena, Iona, Llinos a Sian o Noddfa. Y cyfeilyddion oedd Margaret Jones, Alwena a Janet. Bu canmoliaeth uchel iawn i'r oedfa a phawb wedi cael bendith a mwynhad. Casglwyd swm anrhydeddus iawn o dros fil o bunnoedd at Gancr yr Wygelloedd.



Ieuenctid a Mamau Ysgol Sul Noddfa a fu'n canu yn oedfa Merched y Wawr ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant

Bedyddwyr

Hyfryd oedd gweld cynrychiolaeth o holl eglwysi Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi yn bresennol mewn cinio yn y Talardd, Llanllwni ar 11 Medi. Er gwaetha ambell anhawster ar y noson braf oedd cael cyfle i gymdeithasu ac i fwynhau pryd o fwyd yng nghwmni'n gilydd. Croesawyd pawb yn gynnes gan Janet Evans ac offrymwyd gras gan Delyth Morgans Phillips. Y wraig wadd oedd y Parchedig Suzy Bale sydd yn Offeiriad â gofal mewn grŵp o eglwysi yn cynnwys Llanllwni, Llanybydder, Llanwenog a Llanwnnen. Wrth ei chyflwyno talodd Janet deyrnged iddi am fynd ati i feistroli'r iaith Gymraeg. Cyflwynodd anerchiad ddiddorol yn llawn hiwmor mewn ffordd mor gartrefol. Mae'n amlwg ei bod wedi cael bywyd cyffrous ac amrywiol. Diolchodd Mair Jones yn diffuant iddi am rannu'i phrofiadau â ni, i'r Talardd am y bwyd, i Nesta am ei gwaith diflino gyda'r paratodau, i Dewi ein trysorydd am ei gyfraniad pwysig yntau ac i Janet am gydlynu'r cyfan ar y noson.

Cymdeithas Hanes

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Fawrth, Medi'r 18fed yn Yr Hen Neuadd, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, a chroesawyd pawb yno gan Selwyn Walters, y Cadeirydd.

Steve Dubé oedd y siaradwr gwadd, cyn-ohebydd i'r Cambrian News, a cholofnydd i'r Western Mail. Mae wedi cyhoeddi llyfr ar hanes Pencader a'r ardal ers rhyw ddeng mlynedd, ac wrth ymchwilio i'r gwaith hwnnw, daeth ar draws dyddiadur a gadwyd gan Rees Thomas Dol-llan, Llandysul rhwng dechrau 1860 a chanol 1863, a'r dyddiadur hwn oedd testun ei ddarlith.

Hannai Rees Thomas o deulu Llanfair, Capel Dewi, yn un o chwech o frodyr, ond roedd ef ei

hun yn byw yn Dol-llan, ym mhlwyf Llandysul, heb fod nepell o Lanfair ar hyd yr afon Teifi. Fel llawer arall yn yr oes honno, hoffai fyw yn well na'i stâd, a bu mewn trafferthion ariannol yn aml oherwydd hynny. Yfai'n ormodol o'r ddiod feddwol, a chofnodai'r effaith a gâi hynny arno am ddiwrnodau wedyn. Tyngodd ddwsinau o weithiau y byddai'n troi'n ddirwestwr, ond methodd â chadw at ei addewidion. Cofnodai'n fanwl ei nosweithiau gyda'i forynion, a byddai'n eiddigeddus tu hwnt pe byddent yn cael sylw gan fechgyn eraill.

Cofnodai ffeiriau'r ardal, y tywydd, nifer y plant fyddai'n hel Calennig, a'r gwaith oedd i'w gyflawni ar y fferm. Teithiodd i Gaerfyrddin i ddal trê'n i Lundain i ymweld â'r Arddangosfa Fawr yn Kensington, - hynny cyn bod y rheilffordd yn cyrraedd Pencader - a chwrdd â nifer o bobol Llandysul yno!

Mae Steve Dubé wedi cyhoeddi llyfr ar dyddiadur Rees Thomas, My Failings and Imperfections.

Bydd y cyfarfod nesaf nos FERCHER (sylwch), Hydref 17eg, am 7.30 yn Yr Hen Neuadd, pan fydd yr Athro Gwyn Griffiths, Aberystwyth, yn siarad am Henry Richard, Tregaron, yr Apostol Heddych. Croeso cynnes i bawb.

Dalier Sylw. Mae'r noson hon i'w chynnal ar y nos Fercher gan bod Catrin Finch yn ymddangos mewn cyngerdd a drefnir gan Gymdeithas Cerdd Llambled ar nos Fawrth, Hydref 16eg.

Dathlu Llanbedr Pont Steffan Drwy Emyn

Nos Iau, Hydref 18fed 2012, am 7.30 y.h., yn Noddfa, Llanbedr Pont Steffan, bydd y gyfrol uchod yn cael ei lansio. Casgliad o emynau am dref Llanbed ydyw gyda phob emyn-dôn wedi ei enwi ar ôl enwogion lleol, busnesau neu gapeli ac eglwysi. Ceir emyn-donau fel CLONC a CONTI'S yn

Llanbedr Pont Steffan

eu plith yn ogystal â PENGWERN (Islwyn Ffowc Ellis), JACOB (Jacob Davies), BRO PEDR (Ysgol newydd Llanbedr) a SHILOH, LLANBEDR.

Kees Huysmans, Y Parchedig Ganon Aled Williams, Gwenan Jones a Chôr Noddfa fydd yn cyflwyno'r emynau o waith Gerald Morgan o Dregaron.

Dau gant a hanner yn unig o gopiâu a gyhoeddir, felly os ydych am ychwanegu'r gyfrol at eich llyfrgell o ddogfennau hanesyddol am y dref, yna dewch i'r achlysur hwn sy'n rhad ac am ddim.

Diolch

Dymuna Eric a Mair Lewis, Brynyreglwys ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch yn fawr.

Cyngerdd Pantyfedwen

Nos Sadwrn 13 Hydref am 7.30 cynhelir cyngerdd mawreddog yn Neuadd Ysgol Bro Pedr (Ffynnonbedr gynt) wedi'i drefnu gan bwyllgor gwaith Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yng nghwmni artistiaid dawnus, sef Côr Bois y Castell dan arweiniad Nia Clwyd a'r unawdydd Joy Cornock. Llywyddion y noson fydd y Parchedig Athro Densil Morgan a'i briod Ann. Croeso cynnes i bawb

Bwffe Caws a Gwin a Ocsiwn

Adloniant gan:

'Free Beer'

yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder nos Wener, 26ain o Hydref am 7.00y.h.

Llywydd: Mrs Mavis Beynon

Tocynnau: £12.50

ar gael gan:

Ieuan Davies

Siop NSPCC Cymru/Wales

Mrs Gwen Jones, Golden Scissors

Holl elw i NSPCC Llanybydder

Mae criw 'Coda Ni' o ardal Pencader/Llandysul am roi'r cyfle i chwi gyfrannu at drigolion

BRUKINO FASO

sydd yn dioddef yn enbyd ar hyn o bryd oherwydd llifogydd a.y.b Yr unig beth sydd angen i chwi i'w wneud yw trefnu dyddiad a chael pobl i ddod ynghyd i weld ffilmiau, a chlywed rhai o aelodau'r Criw yn sôn am yr hyn a welsant ar eu hymweliad â'r wlad yn ddiweddar. Gellir trefnu oedfa yn eich Capel / Eglwys.

Cysyllter â Fioled Jones 01559

384617 / 07791 146562 neu

Heledd ap Gwynfor 07813 604390.

ddod ynghyd i fwynhau gwledd o adloniant.

18 oed

Dathlodd Megan Jenkins, Castell ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Plaid Cymru

Mae cangen Llambled Plaid Cymru yn cynnal noson yng nghwmni Tecwyn Ifan yng Nghlwb Rygbi Llambled, nos Wener, 2 Tachwedd. Croeso cynnes i bawb. Tocynnau gan Ann Morgan, 01570 422413; mwy o wybodaeth gan Ann neu gan Rob a Delyth Phillips 01570 422992.

Cyngerdd Catrin Finch

Mae Cymdeithas Cerdd Llambled yn cynnal cyngerdd yng nghwmni Catrin Finch dydd Mawrth 16eg Hydref am 7.30yh yn Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Cyfeirir at Catrin Finch fel "Brenhines y Delyn", ac mae wedi swyno cynulleidfaoedd gyda'i pherfformiadau ledled y byd. Cafodd ei hysbrydoli i ddechrau canu'r delyn yn bump oed wedi iddi fynychu perfformiad a drefnwyd gan Gymdeithas Cerdd Llambled. Daeth ei thalent i amlygrwydd bron yn syth, ac yn naw oed enillodd y marc uchaf o fewn y Deyrnas Unedig mewn arholiad telyn Gradd VIII. Astudiodd hi gydag Elinor Bennett, ein llywydd, am wyth mlynedd

cyn dechrau ar ei hastudiaethau yn Ysgol Purcell. Graddiodd Catrin o'r Academi Gerdd Frenhinol yn 2002 lle bu'n astudio gyda Skaila Kanga a derbyniodd Wobr y Frenhines am y myfyriwr mwyaf eithriadol yn ei blwyddyn. Bellach mae'n un o delynorion enwocaf y byd, ac mae'n dychwelyd at y gymdeithas gerdd a'i hysbrydolodd hi'r holl flynyddoedd yn ôl!

Gellir prynu tocynnau wrth y drws neu o flaen llaw yn Siop Gerddoriaeth a Fideo Hag, 23 Stryd y Bont: £9, tocyn consesiwn £7.50, dau blentyn AM DDIM gydag un oedolyn sy'n talu. Mae aelodaeth am flwyddyn, sy'n cynnwys mynediad i'r cyngerdd hwn ynghyd â'r pum cyngerdd arall a restrir isod, yn cynnig gostyngiad sylweddol: £35, tocyn consesiwn £30. Sicciau'n daladwy i 'Gymdeithas Cerdd Llambled'.

Cyngherddau i ddod: Dominant Quartet: Dydd Sul 4ydd Tachwedd - 7.30yp - Hen Neuadd; Timothy Orpen & Alison Farr: Dydd Sul 25ain Tachwedd - 2.30yp - Neuadd Y Celfyddydau; Daniel Evans: Dydd Mawrth 22fed - 7.30yp - Neuadd y Celfyddydau; Fabien Genthialon: Dydd Mawrth 12fed Chwefror - 7.30yp - Neuadd y Celfyddydau; Inner City Brass: Dydd Sul 10fed Mawrth - 2.30yp - Neuadd y Celfyddydau. Ceir manylion pellach ar ein gwefan www.lampetermusic.co.uk


Graddio



Llongyfarchiadau i Sharon Price, Langwm, Llambled ar ennill gradd BA gydag Anrhydedd mewn Addysg Blynnyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Pob lwc yn ei swydd newydd gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion.



Llongyfarchiadau i Menna Williams, 45 Heol-y-Gaer, Llanybydder ar ennill gradd o Goleg Prifysgol Aberystwyth yn ddiweddar.



Llogyfarchiadau i Rhydian Watkins, Murmur y Nant, Cellan ar raddio fel Actor a'r Celfyddydau o Goleg y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin.

GWAHODDIAD

Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont

NOSON AGORED I FLWYDDYN 6

Nos Fawrth

Hydref 23ain, 2012

am 6.00 o'r gloch.

Eleni byddwn yn rhoi cyfle i chi a'ch plentyn sydd yn ei flwyddyn/ blwyddyn olaf yn yr Ysgol Gynradd ymweld â'r ysgol.

Bydd y Noson yn cychwyn gyda gair o groeso ac adloniant yn y Neuadd ac yna fe'ch tywsir o amgylch cyfres o weithgareddau amrywiol.

Yn ogystal, bydd aelodau staff yr ysgol ar gael i drafod agweddau o waith yr ysgol.

Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod ar y noson arbennig hon.

Deallwn fod llawer o alwadau ar rieni, ac efallai ei bod hi'n amhosib i chi fynychu'r noson. Os felly, mae croeso i chi ffonio i drefnu ymweld â'r ysgol ar 01570 422 214.

Ysgol Bro Pedr (Campws Iau)



Rhai o blant Ysgol Bro Pedr a fu'n ddigon ffodus i fynychu gem bel-droed a oedd yn rhan o'r Gemau olympaidd yng Nghaerdydd. Diolch i Catrin Pugh am drefnu ac i'r staff a fynychodd yn ystod gwyliau'r haf!

Cafwyd cyflwyniad arbennig i ferched blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 gan aelodau o'r sector hŷn ynglŷn ag ymuno â'r Guides. Diolch iddynt am roi o'u hamser.



Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 3 yn sêr y byd teledu am ddiwrnod wrth iddynt ffilmio gyda Cwmni Teledu Boomerang a chael llawer o hwyl a sbri. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael gweld Lisa, Jodie, Tomi a Catrin ar y teledu yn y dyfodol agos wedi'u gwisgo fel môr-ladron.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 2 a 5 lawer o hwyl a sbri yn gwneud gweithgareddau mathemategol gyda'r cynrychiolwyr o Techniquest a fu ar ymweliad â'r ysgol.

Dafydd Jones o flwyddyn 6 a dderbyniodd Gwpan Cyfeillgarwech Huw ac Elizabeth Jenkins a diolch iddynt am gyfrannu'r wobr hon yn flynyddol. Llongyfarchiadau Dafydd.

Daeth llwyddiant ysgubol i'r ysgol unwaith eto yng nghystadlaethau cartref Sioe ac Eisteddfod Llambod. Cafodd nifer o unigolion wobrau a chipiodd yr ysgol £50 a'r gwpan am yr adran gynradd uchaf ei marciau yng nghystadlaethau Celf Eisteddfod Llambod, ac Elan Jones yn derbyn tarian am yr unigolyn uchaf ei marciau. Yn ogystal, derbyniodd yr adran iau gwpan am yr uchaf ei marciau yn Adran Iau Sioe Llambod. Diolch i'r plant a'r athrawon am eu gwaith. Dyma'r rhai a gipiodd wobrau.

Sioe Llambod: 1af Bethan Sharrocks (llawysgrifen), Elan Jones (cerdyn ac arwydd), 2ail Kondrad (arlunio) Elan (llawysgrifen) Catrin Daniels (llawysgrifen), Aoife Wooding (cerdyn), Osian Jones (coginio), 3ydd Jac Ifans, Mari Lewis (cerdyn). **Eisteddfod Llambod:** 1af Catrin Daniels, (arlunio a llawysgrifen) Julia Nagy (arlunio), Osian Jones (cyfrifiadur), Jac Ifans (pot iogwrt), Elan Jones (creu blodyn, llawysgrifen, gwahoddiad, technoleg), 2ail Laura Jones (arlunio, creu breichled), Tegan Miles (arlunio),



Elan J (llawysgrifen, peintio carreg), Ragi (cyfrifiadur), Jamie H (peintio carreg), Emily G (arlunio), Zaheera (arlunio), Lucy Hill (cyfrifiadur), 3ydd Ffion Davies (arlunio), Ruth Davies (arlunio) Navl (pot iogwrt), Jodie




Evans (llawysgrifen) Tegan Dunderdale (cyfrifiadur), Mererid Thomas (gwahoddiad, peintio carreg).

Ysgol Bro Pedr (Campws Uwchradd)

Bu wythnosau cyntaf y tymor newydd yn rhai prysur iawn i ddisgyblion Ysgol Bro Pedr.

Yn dilyn canlyniadau TGAU ardderchog, pleser mawr oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn dychwelyd i flwyddyn 12 eleni.



Ar ddydd Iau Medi'r 6ed, cynhaliwyd diwrnod menter lwyddiannus iawn. Yn ystod y dydd cafodd disgyblion blwyddyn 12 y cyfle i redeg busnes mewn grwpiau, gan greu cynllun busnes a phosteri hysbysebu, yn ogystal â chynnal cyfrifon busnes.



Ar ddydd Gwener Medi'r 7fed, er gwaetha'r mwd, cafodd disgyblion blwyddyn 12 diwrnod i'w gofio yng nghanolfan gweithgareddau Llain, lle cwblhawyd gweithgareddau mewn grwpiau. Roedd yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau hanfodol megis cydweithio a datrys problemau.

Cynhaliwyd diwrnod ymdrwytho blwyddyn 12 ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbed ar ddydd Llun Medi'r 10fed. Yn ystod y dydd, cafodd y disgyblion gyfleoedd i fwynhau darlithoedd ar ddatblygu sgiliau a llawer mwy.

Bu disgyblion cwrs ymarfer corff blwyddyn 10 eleni yn treulio amser yng nghanolfan gweithgareddau Llain ar ddechrau'r tymor hefyd. Bu'r disgyblion yn dysgu dringo a defnyddio caiac, yn ogystal â datblygu sgiliau hanfodol megis cydweithio o fewn grŵp.

Corsaf Dân Llanbed (1962-2012) yn dathlu ei hanner can mlwyddiant

Mae hanes dyddiau cynnar Gwasanaeth Tân Tref Llanbed yn cuddio yn ddwfn yn niwl y gorffennol. Er chwilio, yr hanes cyntaf sydd ar gael yw Cofnodion o Bwyllgor Cyngor y dref a gynhaliwyd ar Fedi 13 1889.

Ceir yma sôn am y dymuniad i brynu lampau a beltiau i'r dynion tân. Rhai blynyddoedd wedyn ceir cofnod o ddymuniad y Cyngor i sefydlu gwasanaeth gwirfoddol i gynnwys 9 dyn a oedd i dderbyn swllt a chwech am bob ymarfer.

Mae yma restr o Gapteiniaid y gwasanaeth o 1903 hyd at 1941. Yn eu plith mae yna un enw addas iawn sef Mr W Ashman - 1904.

Yn 1941 sefydlwyd y Gwasanaeth Tân Cenedlaethol (yr NFS). Bu mewn bodolaeth hyd 1948. Bu'n gweithredu drwy flynyddoedd yr Ail Ryfel Byd. Yn y blynyddoedd hyn gwelwyd datblygiad mawr, a gwelwyd Injan Dân fodern yn cyrraedd y dref. Dipyn yn fwy effeithiol na'r hen injan a oedd yn cael ei thynnu gan ddau geffyl a wasanaethodd y dref am flynyddoedd mawr. (Mae wedi cael ei hadnewyddu ac mae i'w gweld o hyd yn y Frigâd bresennol).

Cafodd yr Injans Tân newydd yma enw addas iawn sef "The Green Goddesses", a defnyddiwyd y rhain drwy'r wlad yn ystod streiciau dynion tân yn hanner olaf y ganrif ddiwethaf. Deallir fod rhai ar gael o hyd yn cael eu cynnal a'u cadw "rhag ofn".

Yn ystod blynyddoedd y rhyfel bu merched a gwragedd y dref yn gwasanaethu yn y Gwasanaeth Cenedlaethol. Ffynhonnell dda o wybodaeth am yr amser hwn yw Mrs Phyllis Smith MBE. Yr unig un hyd y gwyddom sydd wedi goroesi. Mae ganddi lawer o storïau diddorol am y blynyddoedd y bu hi yn un o'r gwragedd tân yn Llanbed yn ystod blynyddoedd tywyll yr Ail Ryfel Byd.

Agorwyd gorsaf newydd Llanbed (yr un sy'n bodoli o hyd ac sy'n dal i wasanaethu'r dref a'i thalgylch eang) ar ddydd Mawrth 16eg, 1962 gan yr Henadur M. Ll. G. Williams, YH, Cadeirydd y Cyngor Sir ar y pryd. Mae'r adeilad yn cynnwys lle i ddwy injan dân, swyddfa, ystafell ddillad, ystafell gyfarpar, ystafell ddarlithio a hefyd baddon a thoiledau, ac am y tro cyntaf adeiladwyd tŵr ymarfer ar y safle.

Mae'n ddiddorol nodi fod yr orsaf newydd wedi ei hadeiladu ar safle hen orsaf y Gwasanaeth Cenedlaethol gyda rhan o'r hen orsaf yn dal i weithredu yn ystod adeiladu'r un newydd. Yr adeiladwyr oedd Mr E J Thomas, Llanfihangel ar Arth a chwblhaodd y gwaith o fewn yr amser penodedig o 47 wythnos.

Mae'r orsaf newydd wedi gweld llawer o amgylchiadau dirdynol gyda damweiniau difrifol ynghyd a rhai angheuol. Mae damweiniau ar yr heol fawr yn amlygu eu hunain yn amlach na dim y dyddiau hyn.

Mae'r gwasanaeth, er yr holl alwadau brys dros y blynyddoedd, yn diolch i Dduw nad oes neb o'r bechgyn wedi cael anaf difrifol. Rhaid sôn fod y math o alwadau erbyn hyn wedi newid gryn dipyn. Tanau gwair, tanau tai to gwellt, tanau coedwigoedd, simneiau tai a ffermydd oedd yn gyffredin yn yr hen ddyddiau, ond mae rhif damweiniau ar yr heol ydd ar gynnydd yn cynnwys damweiniau beiciau modur.

Mae yna reswm digonol am y newid yma sef y gwaith da mae'r bechgyn yn ei wneud i atal tân yn enwedig yn y cartref. Oeddech chi'n gwybod eu bod yn ymweld â chartrefi yn cynghori pobl ynglŷn â diogelwch a hyd yn oed yn rhoi larymau tân a'u gosod yn ddi-dâl? Mae atal tân iddynt y dyddiau hyn yr un mor bwysig â'u diffodd.

Ym mis Gorffennaf eleni cafwyd dydd agored yn yr orsaf i ddathlu'r pen-blwydd ac i ddangos y cyfarpar soffistigedig sydd ganddynt at bob math o achlysur, boed yn dân, llifogydd neu ddamweiniau ar ein ffyrdd. Maent hefyd yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwlans gyda'u "First Responders". Peidiwch synnu dim mai dau ddyn tân a welch gyntaf yn enwedig os bydd y Gwasanaeth Ambiwlans yn brysur. Mae'r plant bob

amser wrth eu bodd yn cael mynd i'r orsaf i weld y peiriannau, yn enwedig pan godir hwynt i'r entrychion ar y "Turn Table Ladder". Mae ganddynt feiciau modur a hefyd gychod pwerus i'w cynorthwyo gyda'r gwahanol dasgau a ddaw i'w rhan.

Diddorol nodi hefyd fod y ffordd o alw ar y gwasanaeth tân wedi newid yn fawr. Yn y dyddiau cyntaf, bechgyn bach oedd yn rhedeg i gartrefi a lle gwaith y dynion tân gan waedu "Tân". Wedyn yn amser y rhyfel defnyddiwyd y seiren i'w galw allan. Yn ddiweddarach wedyn gosodwyd cloch yng nghartref pob dyn tân ac yna daeth yr "alerters". Teclyn bach yn debyg i ffôn symudol yw'r ffordd ddiweddaraf. Mae pob dyn tân yn cario hwn drwy'r dydd, ac mae wrth ochr ei wely drwy'r nos. Pan fod hwn yn canu rhaid mynd ar frys i'r orsaf dân, gwisgo'r dillad arbennig a mynd cyn gynted ag y bo modd ar un o'r ddwy injan dân fodern sydd ganddynt.

Pob dymuniad da iddynt wrth wneud y gwaith holl bwysig yma. gan Arthur Roderick



Yr orsaf dân fel ag y mae nawr ynghyd â dau beiriant modern. Hefyd, rhan o'r criw presennol dan oruchwyliaeth Tim Dicker, ynghyd â hen arwyddfwrdd.



Y pump fu'n swyddogion-yng-ngofal yr orsaf; Tim Dicker y swyddog presennol, a'r rhai sydd wedi hen ymddeol - Gwynfor Lewis, John Jones, Arthur Roderick a'r diweddar Percy Gill.

Cymdeithas Cerdd Llamed yn cyflwyno...

Catrin Finch

"Brenhines y Delyn"

Dydd Mawrth 16eg Hydref 7.30yh

Neuadd y Celfyddydau,
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Gellir prynu tocynnau wrth y drws neu o flaen llaw yn Siop Hag, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan £9, tocyn consesiwn £7.50, dau blentyn AM DDIM gydag un oedolyn sy'n talu.



MIS y PAPUR Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Dim ond un gair – diolch

Noson i ddathlu oedd hi yn ôl y disgrifiad swyddogol ond, i fi, noson i ddiolch, a hynny mewn ffordd arbennig.

Un o'r pethau mawr am ennill un o wobrau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol ydi ymateb pobol wedyn a'r croeso'n ôl yn eich cymdeithas eich hun.

Felly, roedd y noson yn Y Grannell ddechrau Medi'n arwydd o'r ffaith fod barddoniaeth yn dal i fod yn bwysig yn ein diwylliant ni, a chasgliad braf o ffrindiau a chymdogion wedi dod ynghyd.

Mi ges i gyfle i ddiolch, nid yn unig i'r criw bach o dan arweiniad Manon Lowtre oedd wedi trefnu'r cyfan, ond hefyd i bawb arall oedd yno a'r hyn yr oedden nhw'n ei gynrychioli.

Ro'n i wedi sgrifennu cerddi i gofio fy nhad ac ro'n i'n ei gofio'n dweud flynyddoedd yn ôl fy mod i'n fwy tebyg o sgrifennu os o'n i'n gartrefol mewn ardal, gyda chymdeithas gref o 'nghwmpas.

Ro'n i'n arfer sgrifennu llawer yn hogyn ifanc yn Waunfawr a dw i wedi gallu gwneud hynny eto yn Llanwnnen ac ardal Clonc.

Roedd yr artistiaid ar y noson yn dangos pam; mewn gwahanol ffyrdd, roedden nhw'n cynrychioli rhai o'r elfennau sy'n cadw ein cymdeithas a'n diwylliant ni'n fyw.

Roedd y ffaith ein bod yn Y Grannell hyd yn oed yn rhan o hynny – dro ar ôl tro mae'r gwesty wedi dangos ei werth wrth i'r gymuned gyfan ddod at ei gilydd mewn awyrgylch braf.

Roedd plant Ysgol Llanwnnen yn cymryd rhan, wrth gwrs. Yn ystod y blynyddoedd diwetha' maen nhw wedi cyfrannu'n llawn iawn at fywyd yr ardal, a'u gweithgareddau nhw'n rhoi canolbwynt a gobaith i bawb o'u cwmpas hefyd.

A phlant Ysgol Cwrt hefyd – un arall o'r ysgolion hynny lle mae cenedlaethau o'r un teuluoedd yn dal i gefnogi a mynd yno. Ac ro'n innau wedi gweld, wrth helpu efo'r Gân Actol fel y mae plant o deuluoedd y mewnfwydwr hefyd yn gallu cael blas ar beth o fywyd y Gymraeg.

Roedd Gwawr Meysydd wedi dod yn ôl o Fangor a'i thelyn efo hi a'i pherfformiad coeth o osodiad gan un o delynorion traddodiadol mwya' Cymru yn dangos pa mor ddyfn ydi gwreiddiau'r diwylliant, yn llinyn y gallen ni ei ddilyn yn ôl o'r Grannell y noson honno tros gannoedd o flynyddoedd.

Elfen hynod yn ein hardal ninnau ydi Undodiaeth a Heledd a Gwenllian – merched Enfys a Cen Llwyd, gweinidog Capel y Groes – yn dangos pam yr oedden nhwthau wedi ennill yn yr Eisteddfod. Ac mae yna le o hyd i'r gwerthoedd gwâr gwerinol y mae Undodiaeth ar ei gorau'n ei rhoi.

Ro'n i'n arbennig o falch fod Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog wedi cymryd rhan, er gwaetha'r cyfeiriadau at fy niffygion gwalltyddol. Ond, o gofio cymhlethdod ein perthynas deuluol ni â'r Ffermwyr Ifanc – yn helpu Pontsian a chyfrannu aelod at Lanwenog ac ymfalchïo yn llwyddiant y ddau – roedd y cyfraniad yn un cofiadwy.

Yr arweinydd oedd Manon sy'n dangos ynddi ei hun beth all cyfraniad y mudiad fod. (Anodd deall cofiwech sut y mae Elonwy'n dal i fod yn ddigon ifanc i fod yn aelod, ond roedd hithau yno hefyd, wrth gwrs – mae hi bownd o fod tros ei 26 erbyn hyn.)

Roedd yna feirdd yno – mae Tudur Dylan, Ceri Wyn a Karen Owen wedi bod yn ffyddlon iawn i'n nosweithiau ni yn y Grannell. Ond mi fydden nhw'n maddau i fi am sôn yn arbennig am Huw Alltgoch.

Mae Huw'n cynrychioli dau draddodiad cyfoethog a chanolog yr ardal – ei diwylliant llenyddol hi a'i diwylliant amaeth; yn sgrifennu cerddi y gallwch chi olrhain eu crefft fawr yn ôl tros y canrifoedd ac yn meithrin diadell o un genhedlaeth i'r llall fesul gennyn gwerthfawr.

Dyna rai o'r rhesymau pam fod noson gartrefol mewn pentref gystal bob tamed â seremoni mewn Pafiliwn. Heb gymdeithas fel hon fyddai nac Eisteddfod na chynghanedd yn bod.

Yn y Gegin gyda Gareth



Tapas Tymhorol

Rydym bob amser yn hoff o gadw at steil a ffasiwn yma yng nghegin Clonc. Tapas yw blas tymor Hydref 2012; mae'n dod yn fwy poblogaidd o hyd, ac mae 'na ychydig mwy o buzz o'i amgylch. Beth yw Tapas? O ble y daeth e?

Mae Tapas yn golygu tameidiau o fwyd bach sawrus a blasus i'w weini gyda gwin neu gwrw. Mae'n dod o'r gair Sbaeneg 'tapa' sef clawr. Pan yn archebu diod yn Sbaen ambell dro, byddai'n cael ei weini a'i werthu gyda sleisen o fara ar ben y gwydr i gadw'r clêr a'r dwst i ffwrdd. Roedd hyn yn gyfle hefyd i roi tameidiau blasus ar ben y bara – caws, ham neu olewau. Felly dyma lle tyfodd poblogrwydd y Tapas. Mae'n bryd cymdeithasol gyda ffrindiau a theulu. Gweinwch mewn dysglau a phlatiau lliwgar i ddod a heulwen Sbaen i fwydydd yr Hydref.

Dyma rai o fy ffeifrynnau i!

Pob hwyl yn 'Taclor Tapas'!

Gareth

"Tapas bara a thomatos"

Cynhwysion

- 4 tafell o fara Ffrengig
- 2 domato wedi'u torri'n fân
- 1 ewyn garlleg wedi'i dorri'n fân
- Ychydig o gennin syfi (chives) wedi'u torri'n fân
- 2 lond llwy fwrdd o olew'r olewydd.

Dull

1. Gosodwch y bara o dan y gradell nes bod yn euraidd ar y ddwy ochr.
2. Cymysgwch y tomatos, cennin syfi a'r garlleg yn yr olew. Gosodwch ar y bara gyda halen a phupur i'w blasu. Gweinwch ar ben gwydrau.



Tapas 'Wyls a Pesto' (Aubergine)

Cynhwysion

- 2 wyls wedi'u sleisio'n denau
- 2 lond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 1 ewyn garlleg
- 2 lond llwy fwrdd o pesto
- 175 gm o gaws mozzarella
- Halen a phupur, ac ychydig fasil i addurno.

Dull

1. Ysgeintiwch y tafelli wyls ag halen a gadewch i aros am 10 munud, yna golchwch yr halen i ffwrdd.
2. Ffriwch y tafelli wyls mewn olew a wedyn eu rhoi ar bapur cegin.
3. Gwasgarwch y pesto ac ychydig o'r caws dros y tafelli, roliwch a gwrthiwch sgiweren bren i'r canol. Coginiwch am 8 – 10 munud ar wres o 180°C; 350°F; Nwy 4. Addurnwch gyda basil a gweinwch.



Madarch wedi'u llenwi

Cynhwysion

- 4 owns o fenyn
- 2 ewyn garlleg
- 12 madarch maint canolig
- 200gm o selsig chorizo wedi'u sleiso
- 55gm / 2oz o friwsion bara
- Llond llwy fwrdd o teim wedi'i torri'n fân.
- 1 wy wedi'i guro
- Halen a phupur

Dull

1. Meddalwch y menyn mewn powlen gyda'r garlleg. Rhannwch hanner y menyn rhwng y madarch.
2. Rhowch gweddill y menyn / garlleg mewn padell ffrio. Ffriwch y briwsion nes yn euraidd yna ychwanegwch y teim. Rhowch mewn powlen ac ychwanegwch yr wy.
3. Rhennwch y selsig rhwng y madarch yna'r briwsion. Pobwch am tua 15 munud ar wres o 180°C; 350°F; Nwy 4. Gweinwch gyda dail salad 'roced'.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

Y Ffenest

gan Gerald Morgan



Mae rhai siopau yn y dref yn enwog ac unigryw dros Gymru. Siop Gwilym Price yw un o'r rhain. Dengys Llanbedr Pont Steffan ar ei gorau'n wir! Ond wyddoch chi am y sgweiar?

Siop Gwilym Price

Geiriau a'r alaw:
Gerald Morgan



Cynhaliwyd sioe gan Gymdeithas Merlod a Cobiau Cymreig Ceredigion yn Bridfa Parc, Silian ar 15ed Medi. Dyma lun o J. E. Jones Caeglas, Cwrtnewydd, yn dangos Parc y Bedw Warrior, Adran C.

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Te prynhawn yng nghegin Gareth yn Goedwig oedd man cychwyn tymor Hydref aelodau Sefydliad y Merched, Llanwnnen. Wedi arddangosfa goginio dymhorol gan Gareth, buom yn gwledda ar y danteithion a baratowyd yn y gegin. Roedd pawb wedi mwynhau a braf oedd cael cwmni ffrindiau'r mudiad a ymunodd â ni am y prynhawn.

Hefyd ar Nos Fawrth, 11eg o Fedi, ymunodd chwiorydd Capel y Groes â ni, a hynny yn festri'r Capel. Ein gŵr gwadd y noson honno oedd y Parchedig Andy Herrick, un o dîm offeiriadol Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth. Mae'r Parchedig Herrick yn ymwelydd cyson â Sambia yn Ne Affrica ac mae ei waith teyrngarol o fudd ac yn gymorth mawr i'r wlad, a diolch iddynt am gefnogi'r rhai sy'n dipyn llai ffodus na ni. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Elsa Thomas ar ran Sefydliad y Merched a chan Mair Davies ar

ran chwiorydd Capel y Groes.

Enillwyd cystadlaethau mis Medi gan Mary Davies ac Avril Jones.

Arholiad

Llongyfarchiadau mawr i Megan Mai Jones, Blaenhedd, Blaencwrt ar lwyddo yn arholiad piano Gradd 1 gyda 'Distinction' yn ystod yr haf. Da iawn ti.

Prawf Gyrru

Yn ystod mis Medi pasiodd Guto Jones, Neuadd Fawr ei brawf gyrru. Pob lwc i ti.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dan Jones a'r teulu oll yn Central Garage ar farwolaeth priod, mam a mam-gu annwyl sef Lilian Jones yn ystod mis Medi.

Hefyd, bu farw Mrs Mary Evans, 1 Bro Cadarn yn sydyn yn ei chartref, wythnos yn unig wedi iddi ddathlu'i phen-blwydd yn 89 oed. Cofiwn at y plant Nella, Bronwen ac Emyr a'r

cysylltiadau oll yn eu galar.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Jean Jones, Moelfre sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Priodas

Pob dymuniad da a hapusrwydd i Geraint Bowen, Delyn Aur ar ei briodas ag Elen yn ystod mis Medi.

Tŷ ar Osod yn Llanwnnen

3 ystafell wely gwres canolog a ffenestri dwbl newydd ei foderneiddio gardd a pharcio

Rhif Ffon Cyswllt:
01570 481140
0777 3330045

Cynghrair Ward Llanwenog

Cynghrair Ward Llanwenog a'r Cyffiniau

Cynhaliwyd ail gyfarfod y Gynghrair ar nos Fawrth y 18fed o Fedi. Pwrpas y Gynghrair yw rhoi llais i drigolion ein hardal i fynegi barn ar faterion o bwys. Cafwyd trafodaeth am ddyfodol Neuadd Gorsgoch, a chytunwyd i gefnogi pwyllgor y neuadd yn eu hymdrechion i adnewyddu'r adeilad. Penderfynwyd creu bàs data o grefftwyr / unrhyw un â sgil arbennig yn yr ardal, er mwyn cefnogi gweithwyr a busnesau lleol. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei ddosbarthu mor helaeth â phosibl, mewn gwahanol ddulliau, i gartrefi'r ardal a thu hwnt. Os oes diddordeb gennych i fod yn rhan o'r rhestr, cysylltwch â ni ar yr e-bost isod. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 23ain o Hydref am 7.30 yng Nghefn Hafod, Gorsgoch. Croeso cynnes i bawb, ac os oes mater yn eich poeni neu yn deilwng o drafodaeth, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni.

wardllanwenog@gmail.com

Carpedi

Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwile mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambod
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Hoffem groesawu pawb yn ôl i'r ysgol yn dilyn gwyliau haf hir a thywydd glawog.

Rydym ni yn croesawu'r plant bach newydd i'r ysgol. Gobeithiwn y bydd Matilda Wroe, Lucy Moyes a Jac Rees yn hapus iawn yn ein plith. Rydym erbyn hyn yn gweld eisiau plant blwyddyn 6 y llynedd sef Cerys Pollock, Gethin Morgans, Haylie Cook, Morgan James a Aaron Gibbons. Gobeithio bod pob un yn joio ac wedi ymgartrefu yn yr Ysgol Uwchradd.

(Adroddiad gan: Liberty Waterman a Jenna Wilson)

Croesawn Miss Jo ein cogyddes yn ôl i'r ysgol yn dilyn ei llawdriniaeth. Roedd hi bant am rai wythnosau cyn gwyliau'r haf. Braf gweld ei gwên gyfeillgar yn ôl yn y gegin. Mae'n coginio bwyd iachus bob dydd yn y gegin.

(Adroddiad gan: Catrin Schröder, Hanna Davies ac Alaw Jones)

Cawsom sypreis pan ddaethon ni i'r ysgol a chlywed ein bod wedi ennill yr ail faner werdd am fod yn ysgol eco. Y pethau yr ydyn ni'n gwneud yw gofalu am fyd natur ac am yr amgylchedd. Rydyn ni yn tyfu llysiau yn yr ardd a thyfu salad iachus yn y tŷ gwydr, hefyd rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn ailgylchu a thracio trydan. Ymlaen â ni am y faner nesaf!

(Adroddiad gan: Owen Schröder a Macy Symmonds)

Cafodd disgyblion Ysgol Cwrtnewydd lwyddiant yn y sioeau lleol dros y haf.

Dyma'r canlyniadau:

Sioe Cwmsychpant

Llawysgrifen Bl 3 a 4 - Lois Jones - 2il. Lluniadu Bl 3 a 4 - Arwel Williams - 1af; Carwyn Davies - 3ydd. Lluniadau Bl 5 a 6 - Haylie Cook - 1af.

Sioe Gorsgoch - Lois Jones - 2il. Lluniadu Bl 1 a 2 - Alaw Jones - 1af Phoebe Prater - 2il; Luned Jones - 3ydd. Lluniadu Bl 5 a 6 - Aaron Gibbons - 2ail; Elin Davis - 3ydd.

(Adroddiad gan: Beca Jenkins a Ffion Williams)

Ar ddechrau'r tymor rhaid oedd ethol ein cyngor ysgol newydd. Cafwyd bore â'r plant yn dangos eu cyflwyniadau pŵer-pwynt ar gyfer eu hethol i fod ar gyngor yr ysgol. Roedd llawer o'r disgyblion wedi ymdrechu'n galed gyda'u cyflwyniadau. Ar ôl i bawb ddangos eu gwaith aethon ni i'r neuadd i ethol y cyngor. Cafodd pob disgybl y cyfle i fwrw pleidlais. Ar ôl cinio cyhoeddwyd y canlyniadau:

Cadeiryddes - Elin Davies; Is Gadeiryddes - Madeleine Smith; Ysgrifynyddes - Hanna Davies; Trysorydd - Owain Jones. Aelodau blwyddyn pump a chwech - Catrin Schröder a Beca Jenkins.

Aelodau blwyddyn tri a phedwar - Lois Jones a Nia Morgans, Aelodau cyfnod sylfaen - Luned Jones ac Elan Jenkins. Llyfregllwyr - Beca Jenkins a Lleucu Rees.

Y pwyllgor hybu darllen - Owen Schröder, Zachary Wroe, Libby Waterman, Arwel Williams, Leah Kersey a Danny Waterman.

Gobeithio bydd pawb yn barod am waith caled yn ystod y flwyddyn!

(Adroddiad gan: Elin Davies a Madeleine Smith)

Mae Cynllun Coop wedi ailgychwyn ar ôl gwyliau'r haf. Penderfynodd plant 5 a 6 i roi enw newydd i'r busnes sef 'Bagiau Iachus Cwrt'. Dechreuodd y busnes ddwy flynedd yn ôl ac mae'n mynd o nerth i nerth. Rydyn ni yn gwerthu bagiau o ffrwythau, salad a llysiau am £3 i rieni a ffrindiau'r ysgol. Os hoffech brynu ffrwythau a llysiau blasus cysylltwch â'r ysgol ar 01570 434 273.

(Adroddiad gan: Owain Jones, Arwel Williams a Caitlin Gibbons)

Mae Cynllun Addysg Gorfforol a'r Cynllun 3 Pwnc wedi dechrau eto. Rydyn ni'n gwneud y ddau gynllun gyda phlant ysgolion cynradd Llanwnnen a Llanwenog. Rydyn ni'n cael sbri a braf yw cael cwrdd â phlant o ysgolion cyfagos.

(Adroddiad gan: Gan Leah Kersey, Daniel Waterman a Skye Binding)

Mae clybiau'r ysgol wedi ailddechrau. Dydd Llun mae Clwb Cadw'n Heini (3:30yp i 4:30yp). Dydd Mercher mae clwb yr Urdd (3:30yp i 4:30yp). Mae'r clybiau ar agor i bawb yn yr ysgol.

(Adroddiad gan: Nia Morgans a Nathaniel Wroe.)

Aeth pedwar o blant yr ysgol am brynhawn i farddoni ac i odli yng nghwmni Mrs Ella Davies, Waun. Bu'r plant wrthi yn creu cerdd i longyfarch Dylan Iorwerth ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac i ddolch iddo am ei holl help.

(Adroddiad gan: Elin Davies, Owain Jones, Beca Jenkins a Hanna Davies)

Mae hoci yn gêm o hwyl i blant yr ysgol. Bob dydd Gwener am awr o sesiwn mae Julie yn dod i'r ysgol i'n dysgu ar sgiliau hoci. Mae Julie yn ein dysgu i basio a driblo'r bêl yn gywir. Mae hoci'n ffordd dda o gadw'n iach.

(Adroddiad gan: Zachary Wroe)

Ddydd Gwener, Medi 21ain aeth pump o blant yr ysgol, sef Lois Jones, Carwyn Davies, Lisa Jenkins, Lleucu Rees a Luned Jones, i Aberystwyth i ffilmio rhaglen o'r enw 'Y Môr Ladron'. Roedden ni'n gwisgo fel môr ladron. Cawsom amser prysur iawn yn Aberystwyth. Rydyn ni'n edrych ymlaen i weld y rhaglen ar Awr Fawr Cyw yn y

dyfodol agos. (Adroddiad gan : Lois Jones, Lleucu Rees, Carwyn Davies a Lisa Jenkins.)

Clwb 100

Awst 2012

1 - Mrs Kate Davies, Tynfron, Cwrtnewydd. 2 - Morfydd Davies, Tyngrug Isaf, Cwmsychbant. 3 - Olwen Roberts, 12 Glyn Bedw, Rhoslefain. 4 - Rhys Alwyn, Penwac, Llandysul.

Medi 2012

1 - Olwen Roberts, 12 Glyn Bedw, Rhoslefain. 2 - Mrs Rachel Davies, Afonog, Cwrtnewydd. 3 - Gethin Williams, Blaenwaun, Talley. 4 - Evan Jones, Caeglas, Cwrtnewydd.

Gwellhad

Gobeithio fod Mrs Anne Thomas, Milford yn teimlo'n well yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Gadael y pentref

Mae meddyliau pawb dros ardal eang iawn â Mrs Rachel Davies gynt o Afonog. Mae wedi symud yn ddiweddar at y bechgyn a'u teuluoedd gan fod yr iechedd heb fod cystal ac angen gofal. Cofiw'n gynnes atoch Rachel gan obeithio y cewch fwynhau iechedd gwell yn fuan.

Tŷ Capel Seion

Croeso i ddeiliad newydd Tŷ Capel Seion - gobeithio y byddwch yn gysurus yn ein mysg.

Cydymdeimlad

Danfwnn ein cydymdeimlad dwysaf â Sulwen a Gareth Lloyd, Ucheldir ac Alan Jones, Penlanfach yn dilyn marwolaeth ei modryb sef Mrs Mary Evans, Llanwnnen.



Gwynt a glaw oedd y tywydd ar gyfer ras 10K Abertawe, ond cafodd rhedwyr Sarn Helen ganlyniadau gwych: un yn gyntaf yn ei gategori, un yn drydydd a phump o'r rhedwyr yn rhedeg eu amserau gorau (ag), a dyma'r canlyniadau. Glyn Price oedd y rhedwr cyntaf yn ôl o'r clwb mewn 36 munud 04 eiliad ac yn drydydd d45, Huw Price 40 munud 26 eiliad, Huw Rowcliffe 43 munud 57 eiliad (ag), Caryl Davies 44 munud 13 eiliad (ag), Dawn Kenwright 44 munud 23 eiliad ac yn gyntaf m55, Sian Roberts-Jones 44 munud 30 eiliad (ag), Aneurin James 47 munud 14 eiliad (ag), Eleri Rivers 47 munud 44 eiliad (ag) ac hefyd rheddodd Kevin Hughes.

Bydd cyfres traws gwlad Gwent yn dechrau ar Hydref 21 a'r ras gyntaf yn Pen-y-bont ar Ogwr - enwau cyn gynted â phosib i Eileen Rees, Caryl Davies neu Janet Jones.

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi'n ei reol gan
Awdurdod y Gwasanaethau Aelodol, yng ngydaeddiad cyffwrdd yswiriant,
o dan RIF Cyfraniad 300035.

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎01570 423135

☎07811917799 /

07968821035

✉ mwncciffwnci@hotmail.com

Gwersi Piano

gan athrawes brofiadol



Cysyllter ag

Ann Bowen Morgan

01570 422413

DAI MECANIC

Arbenigwr mewn:

- Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
- Cynnal a chadw cyfarpar pŵer

DAI JONES
07791 840 500

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen

Cwis - nos lau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Bwydlen Nadolig ar gael
Croeso cynnes i bawb!

Llanybydder



Muriel Lewis, Cwmaur, Llanybydder yn dathlu'i phen-blwydd yn 101. Fe'i cyflwynwyd â blodau gan y Cyngorydd Siân Thomas, Cadeirydd Cyngor Sir Gâr, a chan ei chynghorydd lleol, Ieuan Davies. Gyda nhw mae Derick a Ros Davies, ei merch a'i gŵr, a'i hŵyr Kevin Davies.

Cymdeithas Diabetes Llanybydder a'r Cylch

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Diabetes Llanybydder a'r Cylch yn festri Aberduar nos Fawrth 11eg Medi gyda 15 aelod yn bresennol. Cydymdeimlwyd â Mrs Eirwen Thomas Pontsian ar farwolaeth ei mab yn ddiweddar. Ar nodyn hapusach, llongyfarchwyd Bill a Maude Pybus ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt.

Y siaradwr gwadd oedd Mr Dai Williams o Swyddfa Diabetes Cymru Caerdydd a bu'n sôn am waith y Gymdeithas sef gofalu, cysylltu ag ymgyrchu. Cyflwynwyd siec o £5,000 iddo at waith ymchwil. Diolchodd yn gynnes am y rhodd. Oddi ar y cyfarfod diwethaf derbyniwyd £910 er cof am y diweddar Mr John Griffiths Llanarth, £150 gan Sefydliad y Merched Cross Inn, a £50 gan Farchnad Wledig Cei Newydd.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth.

Eglwys Sant Pedr Llanybydder

Roedd Gwasanaeth y Gair fis Medi yng ngofal y Parchedig Suzy Bale, gydag Eleri yn ei chynorthwyo. Thema'r gwasanaeth oedd hanes Jona. Neges y stori oedd ein bod ni

weithiau yn rhy ofnus i wrando ar Dduw neu i ddilyn ble mae'n ein hanfon. Mae dynion yn gallu bod yn styfnig a gwrthod dilyn, ond mae'n bwysig iawn i ni wrando ar Dduw a'i ddilyn i ble bynnag mae am i ni fynd. Diolch i'r Ficer am baratoi'r oedfa, ac am gyflwyno'r stori i ni mewn ffordd rhwydd iawn. Diolch i bawb a gymerodd ran, rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau bob tro.

Rydym wedi cael 2 bedydd yn yr Eglwys yn ddiweddar, sef bedydd efeilliaid Lily a Lotti Mumford, a bedydd Brynach a Dion Stephens Davies. Hyfryd oedd cael bedyddio 4 plentyn bach yn ein heglwys ni. Croeso iddynt i deulu'r Eglwys ac i deulu Dduw!

Llongyfarchiadau i Will a Maud Pybus ar ddathlu'u Priodas Ddiemwnt. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Parchedig Bill Fillery a'i wraig Liz ar enedigaeth eu hŵyr bach cyntaf, sef Elliott Robert Light Fillery - mab i Peter a Kathryn ym Manceinion. Llongyfarchiadau mawr i chi, a gobeithio eich bod wedi mwynhau pob cwtsh gyda'r un bach!

Cofiw'n am bawb sydd yn anhwylyd, a chofiw'n yn arbennig am Cynthia yng Nghaerdydd. Rydych i gyd yn ein gweddïau ni.



Llongyfarchiadau i athrawon a phlant Ysgol Feithrin Llanybydder sydd wedi derbyn tystysgrif "Cylch Rhagorol" gan Mudiad Meithrin. Yn y llun mae y dair athrawes sef Meinir Williams, Louise Evans a Helen Williams ynghyd a phlant y cylch.

Côr Lleisiau'r Werin

Ar nos Iau 6ed Medi, dechreuodd ymarferion Côr Lleisiau'r Werin yn dilyn gwyliau'r haf. Braf oedd gweld cymaint o aelodau, a chroesawyd pawb yn ôl gan Kay. Trafodwyd rhaglen y côr ar gyfer y misoedd nesaf, sef canu yng Nghapel Gorsgoch mewn Gymanfa ar 30ain Medi a hefyd byddwn yn canu ar gyfer Merched y Wawr yn Llanrhystud ar 18fed Hydref.

Llynedd cynhaliodd y côr Noson Nadoligaidd yn Eglwys Llanybydder, ac oherwydd iddi fod yn noson lwyddiannus, penderfynwyd ein bod ni yn mynd i gynnal noson debyg eleni eto. Felly, dyma ddyddiad ar gyfer eich dyddiaduron chi - nos Sul, 9fed Rhagfyr, yn Eglwys Llanybydder. Bydd y côr yn canu, plant Ysgolion Sul Rhydybont ac Eglwys Llanybydder, a bydd pobol ifanc y pentref yn adrodd darnau Nadoligaidd. Dyma noson hyfryd i'r teulu i gyd.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y côr ar nos Iau 25ain Hydref am 7.30 yn Festri Aberduar Llanybydder. Gobeithio y daw holl aelodau'r côr i'r Cyfarfod Blynnyddol, gan y byddwn yn trafod pethau pwysig fydd yn effeithio'r côr trwy'r flwyddyn, fel dewis swyddogion. Mae barn

pawb yn bwysig iawn i ni.

Yn ymarfer 13eg o Fedi, dymunwyd yn dda i Alwena wrth iddi wella o'i llawdriniaeth ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn gwella'n glou, ac yn ôl gyda ni wap!

Rydym yn falch clywed fod Dylan, mab Catrin, yn gwella'n iawn yn dilyn ei ddamwain ar ddechrau'r haf.

Dymunwyd gwellhad buan i Gethin, ŵyr Elma, ar ôl iddo gael dolur ar ei goes. Gobeithiwn y byddi di yn gwella'n glou.

Cydymdeimlwyd gyda Yvonne a Eifion, yn dilyn marwolaeth chwaer Eifion.

Llongyfarchiadau i barti cydadrodd Sarn Helen ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Llambod. Mae rhai o aelodau o'r côr hefyd yn aelodau o'r parti cydadrodd.

Yn ymarfer 20fed Medi, braf oedd cael Alwena yn ôl yng nghanol yr altos! Rydym yn falch iawn eich bod chi yn gwella yn dilyn eich llawdriniaeth.

Llongyfarchiadau i Elin, merch Menna, am gael swydd dros dro fel ymchwilydd ar raglen Ffermio. Pob lwc i ti Elin, a gobeithio y byddi di yn joio'r swydd newydd.

Yn rhifyn mis nesaf Clonc, cewch glywed hanes y Gymanfa yng Nghapel Gorsgoch.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw:
Cyfeiriad:
Codi post:
Rhif Ffôn:

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

4		9		3	5		7	1
					1			
					9	8		6
	2		5					
5	3			4			1	2
					2		6	
2		7	9					
			1					
9	6		2	8		1		4

Atebion Swdocw mis Medi:

Llongyfarchiadau i: **Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder** a diolch i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Hugh Evans, Coedparc, Llanybydder; Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Bryn Hughes, Cwmere, Felinfach; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Delyth Edwards, Deluan, Llansawel.

1	8	6	3	9	2	5	4	7
7	9	3	4	5	8	1	6	2
5	2	4	7	6	1	3	9	8
3	1	5	6	2	9	8	7	4
4	7	2	5	8	3	6	1	9
9	6	8	1	4	7	2	5	3
6	3	9	2	1	4	7	8	5
8	5	7	9	3	6	4	2	1
2	4	1	8	7	5	9	3	6

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso nôl i Mrs Nans Davies, ein prifathrawes, ar ôl ei llawdriniaeth ar ei chlun.

Croeso i Tudur George i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae wedi setlo ac yn hapus ymhlith ei ffrindiau newydd.

Croeso hefyd i'r gogyddes newydd, Miss Andrea Procter ac i'w chynorthwywraig, Mrs Wendy Rhodes. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich swyddi newydd.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus mewn sioeau ac eisteddfodau lleol dros yr haf. Da iawn chi.

Sesiynau hoci sydd gennym y tymor yma yng nglwb Campau'r Ddraig i'r Adran Iau. Maent yn mwynhau dysgu ac ymarfer y sgiliau.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd fagiâu o ddillad i'n hymgyrch Bag2School yn yr haf. Gwnaethpwyd £490 tuag at gronfa'r ysgol. Bwriadwn wneud hyn eto nes ymlaen yn y flwyddyn, felly cyfle arall i chi glirio'r cypyrddau!

Diolch i'r Cyngor Bro am ei rodd haelionus i'r ysgol unwaith yn rhagor.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am y misoedd canlynol:

Mis Gorffennaf:

£50.00 – 71 – Alwyn Evans, Brynceirch, Llanllwni. £40.00 – 114 – Arwel Rees, Llys-y-wawr garage, Llanllwni. £30.00 – 234 – Mr & Mrs Organ, Penrhiwdilfa, Gwernogle.

£10.00 – 167 – Emrys Evans, Ceunant, Llanllwni. £5.00 – 83- Rhys Jones, Tirbanal, Llanymddyfri. £2.50 - 232 – Kay Hamza, Cwmiar, Llanllwni. £2.50 – 150 – Tom Lewis, Aneddle, Pencader. £2.50 – 244 – Moira Jones, Felingelli, New Inn. £2.50 – 15 – Ceris Howells, Pantglas, New Inn.

Mis Awst:

£10.00 – 29 - Kevin Jones, Trysor, Pentop, Llanllwni. £5.00 – 99 – Tudur Williams, Clyniau, New Inn. £2.50 – 207 – Ffynnon-Newydd, Llanllwni. £2.50 – 41 – Bryn, Llanllwni. £2.50 – 175 – Perthyerllen, New Inn.

Mis Medi:

£10.00 – 140 – Mrs Tulloch, Tynlon, Maesycrugiau, Pencader. £5.00 – 20 – Owen Evans, 28 Bro Einon, Llanybydder. £2.50 – 162- Iestyn ac Erin Evans, Park Lane, Llanllwni. £2.50 – 62 – Ffion Harries, Maesnonni, Llanllwni. £2.50 – 153 – Gwen Walters, Wernenfach, Maesycrugiau

SIOE C.Ff.I. Llanllwni

Llwyddiant i dreialon cŵn defaid a'r sioe

Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc Awst, cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a sioe C.Ff.I. Llanllwni ar gaeau Abercwm trwy garedigrwydd Mr a Mrs Davies a'r teulu. Er gwaetha'r tywydd gwael, braf oedd gweld tyrfa dda o bobl ar y cae. Gwelwyd cystadlu brwd yn y treialon cŵn defaid, y tent, a'r defaid; da beth oedd hynny.

Llwyddion y dydd eleni oedd Mr a Mrs George, Penwernddu, Abercych, Boncath. Braf oedd cael eu cwmni a diolch iddynt am eu rhodd haelionus. Cynhaliwyd sioe fideo am wyth yr hwyr yn nhafarn y Talardd ac yna ocsiwn i gloi'r noson. Cafwyd tipyn o hwyl gydag Mr Dewi Davies yn gwerthu eitemau di-ri.

Gan gofio nad oedd y Ffermwyr Ifanc yn gwneud unrhyw elw, mae swm sylweddol oddeutu £2000 wedi'i godi hyd yn hyn at yr elusen a ddewiswyd, sef Ambiwylans Awyr Cymru. Os oes unrhyw un am gyfrannu mae croeso i chi wneud o hyd.

Dymuna C.Ff.I. Llanllwni ddiolch i'r holl noddwyr am eu cyfraniadau, y beirniaid am eu gwaith, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth, y stiwardiaid, ynghyd â phawb arall a wnaeth helpu. Diolch i chi gyd! Canlyniadau: Treialon Cŵn Defaid: **Agored Cenedlaethol**: 1. Karen Haker (Maide) 2. Eirian Morgan (Spot) 3. Martha Morgan (Becs) 4. Karen Haker (Rob) 5. Daniel Jarman (Jaff) 6. Martha Morhan(Shane). **Agored De Cymru**: 1. Irwel Evans (Bob) 2. Irwel Evans (Lad) 3. Charles Perkins (Dai) 4. Eirian Morgan (Jill) 5. Paul Tompkins (Mack) 6. I. B. Jones (Joe). **Nofis De Cymru**: 1. Charles Perkins (Dai) 2. Gwyn Davies (Bob) 3. Martha Morgan (Shane) 4. Gareth Davies (Lad) 5. Stan Harries (Sam) 6. John Howell (David Neul). **Sioe Adran Garddwriaeth**: Mr John Evans, Aberdeuddwr, Llanllwni. **Adran Flodau**: Mr Eirwyn Evans, Dulais, Llanllwni. **Adran Goginio**: Miss Elen Jones, Felin Gelli, Llanllwni. **Adran Cyffeithiau a Gwin**: Mr John Jones, Hengau, Llanllwni. **Adran Defaid Mynydd**: Jones, Blaenblodau, New Inn. **Adran Defaid Iseldir**: Davies, Gwndwn, New Inn. **Pencampwyr Defaid**: Jones, Blaenblodau, New Inn. **Adran Gwartheg Godro**: Davies, Gwndwn, New Inn. **Adran Gwartheg Eidion**: Jones, Blaenwaun-Ganol, Llanwnnen. **Pencampwyr Gwartheg**: Evans, Pantycoubal, Gwernogle. **Adran Cynnyrch Fferm**: Howells, Gwarallt, New Inn. **Adran Plant Dan 7**: Tudur George, Haulfryn, New Inn. **Adran Plant 7-11**: Lewis Thomas, Cross Roads, Llanllwni. **Adran Plant 12-16**: Luned Jones, Blaenwaun-Ganol, Llanwnnen.

Ar ddechrau Mis Awst cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y

Clwb a chafodd y swyddogion isod eu hethol am y flwyddyn sydd i ddod: Cadeirydd: Siôn Evans, Glas-y-Dorlan, New Inn. Is-Gadeirydd: Anwen Jones, Blaenblodau, New Inn. Ysgrifenyddes: Meryl Davies, Bryn-y-Coed, Pencader. Trysorydd: Elin Evns, Frongelli, New Inn. Ysgrifenyddes Cofnodion: Betsan Jones, Highview, Llanllwni.

Pob lwc i'r swyddogion yn eu swyddi newydd!

Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r clwb yn ein 'It's a Knockout' blynnyddol ddechrau mis Awst a gynhaliwyd ar gaeau Glanafon; hoffwn ymddiheuro am y camgymeriad lleoliad yn y rhifyn diwethaf.

Braf yw gweld 9 aelod newydd yn ymuno â'r clwb eleni yn llawn brwdfrydedd ac yn fwy na pharod i ymuno yng ngweithgareddau'r clwb. Cawsom noson llawn hwyl a sbri yng ngofal yr arweinyddion i groesawu'r aelodau newydd. Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn cynnal sawl gweithgaredd gwahanol sef ymweld a T. L. Thomas & Son, cwis i'r aelodau ac yn paratoi ar gyfer Eisteddfod flynyddol y Sir.

Tamaid i aros pryd

Mewn ymateb i'r cais am wybodaeth parthed awdur y penillion am Llanllwni yn Clonc mis Mehefin, derbyniwyd galwad ffôn o Gaernarfon oddi wrth Menna, merch Caradog, y cyn Feili Dŵr, (Rhodfa Glynhegog gynt) yn taflu goleuni ar awdur y cerddi. Lewis Jones a symudodd o Lansteffan i weithio yn ffatri wlân ym Mhencader yw'r awdur. Merch Lewis Jones oedd mam Caradog. Mae hanes diddorol i Lewis Jones a gobeithir y bydd modd cyhoeddi erthygl amdano yn un o rifynnau Clonc.

Capel Nonni

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni am 7.00y.h nos Fercher, 10fed Hydref. Pregethir gan y Parchedig Aled Jones, Saron, Llandysul. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Cynhaliwyd taith tractorau gan Melvyn Rees, Llys-y-wawr a Geraint Rees, Maes-y-celyn rai misoedd yn ôl. Daeth llu o dractorau ynghyd a chafwyd diwrnod arbennig gan ddechrau yn Gerddi Norwood, Llanllwni a theithio o amgylch y wlad a gorffen â chinio blasus yn nhafarn Y Talardd. Codwyd swm o £1,800 at Ambiwylans Awyr Cymru. Diolch yn fawr i Banc HSBC am noddi £500. Diolch o galon i bawb a wnaeth gefnogi'r diwrnod ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd. Diolch hefyd i Annwen Evans, Park Lane am y rhodd o £30; £10 a godwyd drwy werthu raffl ar noson o werthu nwyddau coginio yn nhafarn y Talardd a rhoi'r arian at Gronfa Ambiwylans Awyr Cymru.

Dymuna Tom, 32 Bryndulais ddiolch yn fawr am y llu o gardiau, anrhegion ac ymwelwyr ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Dymuna Arwel Rees, Llys-y-wawr ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn a rhoddion a dderbyniodd yn dilyn ei salwch yn ddiweddar. Diolch i chwi bawb am eich caredigrwydd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Phil Thomas, Llusalaw ar ddod yn dad-cu unwaith eto yn sgil genedigaeith Nia Medi – merch fach i Rhys a Louise, Brynmyrddin a chwaer i Ellie a Dylan.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Lewis ac i Sam Joynson o C.Ff.I. Llanllwni am ddod yn 4ydd allan o 13 tîm yn y gystadleuaeth Coedwigaeth yn y Sioe Frenhinol eleni. Dymunwn bob llwyddiant i chi yn y dyfodol. Da iawn chi.

Trosglwyddo sic o £5,000



Mewn cyfarfod o Gymdeithas Diabetes Llanybydder a'r Cylch derbyniodd y siaradwr gwadd sef Mr Dai Williams o Swyddfa Diabetes Cymru, Caerdydd sic o £5,000 tuag at waith ymchwil.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel mae'r Hydref wedi cyrraedd ac mae Morus y gwynt wedi bod y chwythu'r dail i bob man. Ydych chi wedi sylwi bod rhywbeth wedi digwydd i liw'r dail?

Bu llwyth ohonoch chi yn brysur iawn gyda'ch creonau yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun y plant yn mynd i'r ysgol ac mae'n rhaid dweud, roedd pawb wedi gwneud ymdrech wych. Da iawn chi gyd! Rhaid canmol Jac Ifan Davies o Lanybydder a Luned Haf Jones o Gwmsychpant am luniau gwych. Ond yr enillydd y mis hwn yw Siwan Mair Jones, 33 Maesywennol, Caerfyrddin. Llongyfarchiadau mawr i ti Siwan a phawb arall wnaeth gystadlu. Ewch ati nawr i liwio llun fy ffrindiau gorau yn casglu dail yr Hydref. Danfonwch nhw ataf i erbyn yr 20fed o Hydref.

Hwyl am y tro



Enillydd
y mis!

Siwan
Mair
Jones



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Crug-y-chwil

Bydd y rhan fwyaf o ddarlennwyr CLONC yn gyfarwydd â'r enw 'Crug y chwil', neu 'Crug-y-whil' ar lafar gwlad, ym mhlwyf Llanwenog. Roedd Capel Chwil yn y plwyf hefyd ar un adeg a hwnnw'n perthyn i hen faenor Crug-y-chwil. Enw'r fferm yn unig sydd wedi'i gadw, a chymer honno ei henw oddi wrth y crug neu'r twmpath gerllaw (o bosib am fod y crug yn grwm ac yn ymdebygu o ran ei ffurf i gefn chwilen).

Mae 'chwil-' yn digwydd yn gyffredin fel elfen mewn enwau lleoedd a nentydd. Gyda'r terfyniad ansoddeiriol '-og' mae'n digwydd mewn enwau megis Chwilog, yn Sir Gaernarfon. Ystyr Chwilog yw 'lle ceir llawer o chwilod'. Ac mae Rhoschwilog a Brynchwilog hefyd yn Sir Gaernarfon. Yn Sir Gaerfyrddin ger Llanelli mae Llwynwhilwg a cheir Nant Chwilwg yn ogystal. Mae Nant-y-chwil a Pwll-y-chwil yn Llangrannog yng Ngheredigion.

Yng Ngwent mae Chwilgrug sef Wilrick sy'n cynnwys yr elfennau 'chwil' a 'crug'; yr union elfennau â Crug-y-whil wedi eu gosod mewn trefn wahanol. Mae'n debygol mai'r un yw'r elfen sylfaenol, yn ogystal, yn 'whilach' sy'n digwydd yn Brynwhilach ym mhlwyf Llangyfelach, ger Abertawe.

Ffurf arall berthynol yw 'chwiler'. Magodd hwnnw'r ystyr 'cynrhonyn, sarff, gwiber' a digwydd yn enw ar nant fechan sy'n llifo i afon Clwyd yn Aberchwiler yn Sir Ddinbych. Mae'n digwydd hefyd yn yr enwau Chwileiriog ger Llandegla, a Wileiriog ger Bow Street yng Ngheredigion, gan roi'r ystyr 'lle gwiberog'. Ffurf fachigol 'chwiler' yw 'chwilernyn' sy'n digwydd yn Ynyswilernyn yn Sir Forgannwg.

Rydym wedi nodi sawl enw lle ar draws Cymru wrth wneud y sylwadau hyn, ac wedi gweld sut mae amrywiadau tafodieithol rhanbarthol, cyffredin megis 'chw-' a 'wh-' yn gallu lliwio ffurf enwau lleoedd ar draws gwlad.

Rhaid gwneud un sylw arall cyn ymadael â Crug-y-chwil, Llanwenog. Yn ôl y cyfeirlyfr o gewri Cymru gan y dyneiddiwr Siôn Dafydd Rhys (1534-1620), trigai Chwil Gawr ar un adeg yng Nghastell Chwil Gawr ym mhlwyf Llanwenog. Yn 1577/78 treuliodd Siôn Dafydd Rhys gyfnod yma yng ngorllewin Cymru. Lletyai gyda'i ewythr yr Esgob Richard Davies yn Abergwili yn ei gynorthwyo i gyfieithu gweithiau Protestannaidd i'r Gymraeg ac o bosib rannau o'r Hen Destament hefyd. Efallai iddo ddilyn ei grefft fel meddyg am gyfnod yng Nghaerfyrddin.

Roedd Siôn Dafydd Rhys wedi astudio yn Rhydychen ac yn Sienna yn yr Eidal. Yn yr Eidal ysgrifennodd ar ramadeg y Gymraeg, Lladin, Groeg ac ar seineg yr Eidaleg. Ysgrifennai Siôn Dafydd Rhys hefyd o blaid Sieffre o Fynwy.

Ni ellir llai nag edmygu doniau amryddawn Siôn; roedd ei ddiddordebau'n ymestyn, yn ogystal, i faes llên gwerin. Ef a aeth ati i gasglu'r traddodiadau am gewri Cymru - a llwyddo i leoli 72 ohonyn nhw - gan gynnwys Rita Gawr ac Idris Gawr. Mae ei sylwadau ar Chwil Gawr yn rhoi dimensiwn onomastig diddorol, ychwanegol i'r drafodaeth ar Crug-y-whil.

Ond mae'n rhaid holi rhai cwestiynau. A oedd gennyn creadigol gwyllt wedi meddiannu rhan o gyfansoddiad Siôn Dafydd Rhys? Cofiw am y 72 cawr! A beth yw ein dehongliad o 'cawr'? Tybed a oes rhagor eto i'w ddatgelu am Chwil Gawr o Gastell Chwil Gawr, ym mhlwyf Llanwenog?

Cyflwyno sicc hael er cof am Hazel



Trefnwyd cyfarfod arbennig gan y pwyllgor lleol o Gymorth Cristnogol yn Eglwys St Thomas er mwyn cyflwyno sicc o £1,940 er cof am Hazel Davies Frondolau Pentrebach a fu'n ysgrifennydd gweithgar o'r elusen am 27 mlynedd. Rhoddwyd teyrngedau hyfryd am gyfraniad Hazel gan gadeirydd y gangen leol - Mrs Mair Richards a Tom Defis - Ysg Gorllewin Cymru. Yn y cyfarfod, cafwyd anerchiad gan Eston Njuckin a oedd yn gweithio i Gymorth Cristnogol yn Kenya ac mi gyfeiriodd at y tlodi a'r sychder mawr yn ei wlad. Penderfynwyd gwario'r arian at brosiect arbennig yn Kenya i greu chwech ffynnon a fyddai'n ddigon i sicrhau dŵr glân i fil o bobol yn un o gymunedau tlawd y wlad. Yn y llun mae Mrs Mair Richards - Cadeirydd, Percy Evans - Trysorydd, Eston Njuckin, Tom Defis a Twynog Davies. Bwriedir trosglwyddo swm tebyg o arian yn ystod y dyddiau nesaf i Adran Haemotoleg a Chemotherapy Ysbyty Bronglais.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



Aelodau C.Ff.I. Bro'r Dderi yn eu Cinio Blynnyddol ar ddechrau'r haf eleni yn Ysgubor Teile.



Cynhaliwyd y Ffair ar 8fed Medi. Roedd hi'n ddiwrnod braf a chafwyd gweithgareddau llwyddiannus o dan lywyddiaeth Mr a Mrs Gary Jones, Bryndolau.

Y Parchg. Tom T Defis yn cofio Hazel Davies, Llanbed

Mae dau osodiad o'r ysgrythur yn dod i'r meddwl wrth gyflwyno'r sylwadau yma, a hynny yn dilyn colli un o weithwyr di-ffws a di-ffwdan ond ffyddlonaf Cymorth Cristnogol. Un a oedd yn credu bod galwad ar y Cristion i addoli Duw yn ffyddlon, ac er mwyn gwneud ei ewyllys, bod gwaith i'w gyflawni. Meddai Iesu, "Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, i mi y gwnaethoch." Ac yna, "y sawl sy'n dyfalbarhau i'r diwedd a gaiff ei gadw."

Pedair blynedd ar bymtheg yn ôl mi wnes i ymateb i'r her i fod yn rhan o weinidogaeth yr eglwys i'r tlawd, trwy waith Cymorth Cristnogol. Gweinidogaeth na ellir ei chyflawni heb frwdfrydedd yr eglwys ac ymroddiad trefnyddion lleol sydd yn gyswllt rhwng yr eglwys ym mhob ardal, a'r swyddfa a staff Cymorth Cristnogol sydd yn cydlynu'r gwaith.

Sylweddolais yn fuan iawn bod yna gefnogaeth arbennig i waith Cymorth Cristnogol yn ardal Llanbed, gyda symiau sylweddol o arian yn dod i law. Roedd yna bwyllgor a swyddogion brwd iawn a chydweithio rhwng dwy wraig wahanol iawn i'w gilydd yn arwain y gweithgareddau ar y pryd. Irene Williams yn gadeirydd a Hazel Davies yn ysgrifennydd a threfnydd gwaith Cymorth Cristnogol yn yr ardal. Mi roedd yn gyfuniad perffaith gyda Hazel yn brofiadol ac wedi bod wrth y gwaith am nifer o flynyddoedd cyn i fi ddod i'r swydd. Rwy'n cofio'r ymweliad cyntaf fel nifer o ymweliadau ag aelwyd y teulu yn Frondolau, Pentre Bach, ac yng nghanol yr ymddiddan cartrefol, yn cael gwybodaeth am yr amrywiol ddigwyddiadau oedd ar y gweill. Roedd yna batrwm i'r flwyddyn gyda gwirfoddolwyr yn yr eglwys yn methu peidio ymateb i'w hapêl, ac yn gwybod beth oedd yr orchwyl yr oedd Hazel yn gosod i bawb, a rheini wrth gwrs yn cynnwys ei phriod Twynog, a'r plant a'u ffrindiau. Cafwyd amrywiol bethau drwy'r flwyddyn o Wythnos Cymorth Cristnogol i weithgareddau dathlu'r Nadolig, o gyngherddau, cymanfa/noson o fawl i werthu cardiau Nadolig, Cymorth Cristnogol ac wrth gwrs ymateb i apeladau brys a thrychinebau. Bydd y noson "Carol, Cerdd a Chan" a ysgogwyd gan Hazel yn dathlu pum mlynedd ar hugain y Nadolig hwn. Yr oedd Hazel yn amlwg yn cymryd ei chyfrifoldeb o ddifri ond hefyd yn ymdeimlo â'r angen i sicrhau cymaint o incwm â phosib i helpu'r anghenus a threiniad tlodi. Roedd y digwyddiadau cymunedol, y cymorth i'r tlawd a'i thystiolaeth Gristnogol i gyd yn un gweithgarwch greddfodol a naturiol i Hazel, a hithau'n gwneud y cyfan yn llawen. Roedd wedi meddiannu dyhead Tudor Davies yn ei emyn a'i weddi:

"Dysg inni'r ffordd i weini'n llon er lleddfi angen byd o'r bron,

Rhoi gobaith gwir i'r gwan a'r prudd, ac archwaeth dwfn at faeth y ffydd."

Pan oeddwn i'n paratoi i ddanfoni y gair yma at Twynog, roedd un arall a gafodd wŷs gan Hazel i rannu ei doniau er mwyn codi arian i Cymorth Cristnogol, Shan Cothi, yn canu "Cofia fi" ar y teledu. Byddwn, mi fyddwn yn cofio'r cyfraniad tawel ond allweddol a mawr a gafwyd gan Hazel i nerthu'r gwan a'r tlawd. Rwy'n sôn am ei chyfraniad fel trefnydd lleol i waith Cymorth Cristnogol am dros saith mlynedd ar hugain, ond yn ymwybodol ar yr un pryd o'i chefnogaeth i elusennau eraill hefyd. Cymaint y parch at Hazel a'r teulu y mae'r gronfa goffa amdani wedi cyrraedd £3,800, arian a fydd yn cael ei rannu rhwng Prosiect Cymorth Cristnogol, a oedd mor agos at galon Hazel, ac Adran Haemotoleg, Ysbyty Bronglais, a fu mor gefnogol iddi yn ystod ei salwch diweddar. Tymor o ddwyn cyfle ar ambell ddiwrnod teg nawr ac yn y man fu'r haf yma, ond roedd y cymylau duon yn mynnu dod nôl, ac anodd iawn eleni fu cael diwrnod braf i gael sbort a sbri ar lan y môr, gyda llawer i ddigwyddiad yn cael ei ohirio neu'r lleoliad yn cael ei newid, a doedd hynny ddim yr un peth, ond mi aethpwyd ymlaen â'r gwaith. Eto wrth edrych nôl dros y flwyddyn mi gawsom ni dywydd rhyfeddol o braf yn gynharach, ac er syndod mi gawsom, ynghanol y glaw, ddiwrnodau da i fynd i'r sioe a'r steddfod a rhai digwyddiadau eraill. Dyna fu profiad Hazel a'r teulu yn ddiweddar, y cymylau duon yn mynnu ymyrryd, ond fel dwedodd Eleri yn ei theyrnedd arbennig i'w mam yn y cynhebrwng, wrth edrych nôl heibio'r tymor olaf, roedd bywyd wedi bod yn rhyfeddol o braf. Hyd yn oed yn y dyddiau tywyll cafwyd cyfnodau ac ambell ddiwrnod i'w drysori ac aethpwyd ymlaen â'r gwaith. Weithiau mi fydd Hazel yn trefnu i alw yn y swyddfa ynglŷn ag apêl Cymorth Cristnogol, a hynny yng nghanol ei salwch a'i thriniaeth ac ar y ffordd o'r ysbyty. "Yn dyfalbarhau i'r diwedd."

Meddai John Beaufort Williams wrth sôn am Twynog yn y llyfr "Cymeriadau Bro" ardal Clonc, "Ni allai Twynog fod wedi cyflawni hanner o'r uchod oni bai am gefnogaeth Hazel" ac ni fyddai Cymorth Cristnogol yn gallu gweithredu heb bobl fel Hazel sydd mor allweddol eu cefnogaeth yn y gwahanol gymunedau, i arwain yn y gwaith. Diolch i Mair Richards a'r rhai ar y pwyllgor sy'n parhau gyda'r gwaith yn Llanbed. Fel yr awgrymodd Mair hefyd yn yr angladd, y deyrnedd orau i Hazel fyddai i eraill ymroi i'r gwaith a oedd mor bwysig iddi hi ac yn rhan o waith y Deyrnas. Dywed Peter Thomas. "Yn gymaint iti gofio un o rhain ... fe'i gwnaethost, do, i'r Un sy'n Arglwydd nef, a phrofi wnei o rin ei fendith Ef."

Bendith ar Hazel Davies a'i gwaith, a diolch i Dduw am rhodd ei bywyd.

Yr ardal yn codi arian i Ambiwylans Awyr Cymru



Dylan Jones, Cadeirydd CFfl Cymru, ac Aled Jones, Aelod Hŷn CFfl Cymru, yn cael hoe yn Llambled ar eu taith o gwmpas y wlad yn codi arian i Ambiwylans Awyr Cymru. Ar y dydd Sadwrn, yn dilyn brecwast llawn yn y Pantri, fe'u hanogwyd ar eu taith o Llambed i Hwlfordd gan y Cynghorydd Kistiah Ramaya, Maer y dref.



Ros Jones, Ambiwylans Awyr Cymru yn derbyn sic am £2,150 oddi wrth Jeff Evans, Cwmann, a gymerodd ran yn y 'Celtic Challenge Cycle Ride' gan seiclo 280 milltir mewn tridiau, o Aberystwyth i Abergwaun, o Rosllare i Ddilyn, ac o Gaergybi yn ôl i Aberystwyth. Hefyd yn y llun mae Lyn Thomas a Betty Evans, HSBC Llanbedr Pont Steffan, a gyfrannodd £500 at y cyfanswm. Dymuna Jeff ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.



Staff cangen Llanbedr Pont Steffan o'r Cooperative - Dawn Rees, Penny Colley, Gareth Jones a Lucy Smith - yn cyflwyno sic am £1,000 i Ros Jones, Ambiwylans Awyr Cymru. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod yr haf.

Gwynfor Lewis (chwith) ac Ifor Williams (y trydydd o'r chwith) sydd ar y cyd wedi codi £1,200 ar gyfer Beefy Bike Ride er budd Ambiwylans Awyr Cymru, wedi'i threfnu gan Dylan Jones, Cadeirydd CFfl Cymru. Cyflwynwyd y sic i Dylan Jones ac Aled Jones, Aelod Hŷn CFfl Cymru, yn Llambled yn ddiweddar.



Aeth oddeutu 25 ar eu beics am 25 milltir er budd Ambiwylans Awyr Cymru. Mae angen mwy o arian eleni er mwyn prynu a chynnal hofrennydd newydd. Nid yw'r coffrau wedi'u cau eto, mae cyfle o hyd i noddi.